
# Y DINESYDD

Medi 2021 | Papur Pobl Caerdydd a'r Fro | Rhif 461 £1.20

**Bwrlwm Gweithgareddau'r Haf**
**Menter Caerdydd**
**tud. 11**

## Dyfan Lewis

**Bardd y Goron**
**Eisteddfod AmGen**
**tud.2**



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**David Charles**

***Golygydd Hydref***
***Manon Phillips***

Cyfraniadau erbyn 27 Medi i:
manonph@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF15 1RE
07931 214907

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print: Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd




## Dyfan Lewis
## Bardd y Goron

**Llongyfarchiadau mawr i un sydd wedi ymgartrefu yn ein plith yma yng Nghaerdydd ar ennill coron yr Eisteddfod AmGen eleni.**

Mewn cystadleuaeth o safon uchel daeth Dyfan i'r brig gyda'i gerddi sy'n fyfyrdodau bychain am ei berthynas â Chaerdydd. Yn ei feirniadaeth, dwed Aled Lewis Evans, fod gan y bardd 'y gallu i grisialu rhin ac addewid a dirgelwch Caerdydd o oes i oes, ond hefyd i ddal ton newydd yn ei hyder'. Mae ganddo hefyd 'ddarluniau bach cyfareddol' o'n dinas.

Yn ôl un arall o'r beirniaid, Elen Grug Muse, mae Dyfan yn 'dywysydd medrus a hyderus' wrth iddo ein harwain o amgylch strydoedd ein dinas. Mae ganddo 'gerddi cofiadwy' o fewn casgliad cyflawn sy'n troi i 'gyfeiriadau newydd ac weithiau annisgwyl'.

Canmoliaeth hefyd oedd gan Elinor Wyn Reynolds, y trydydd beirniad. 'Dyma gyfres o gerddi trydanol, cyhyrog, deallus; ac mae'r bardd yn ddiwastraff yn ei ddefnydd o eiriau a'i fynegiant. Mae ganddynt undod pendant ac maent yn creu casgliad amlhaenog, aeddfed o gerddi sy'n haeddu eu darllen sawl gwaith.'

Gallwch ddarllen beirniadaeth y tri yn llawn ynghyd â'r casgliad o gerddi a enillodd y goron i Dyfan Lewis yn *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod AmGen 2021*, sydd ar gael yn y siopau lleol.

Isod y mae Dyfan Lewis yn trafod ychydig ar gefndir y cerddi a enillodd iddo goron Eisteddfod AmGen 2021.

***Cefais fy magu yng Nghraig-cefn-parc, ger Abertawe. Rwyf wedi bod yn symud nôl a mlaen rhwng Caerdydd a Chraig-cefn-parc ers bron i ddegawd bellach. Rwy'n caru'r ddinas hon. Mae Caerdydd wedi bod yn lle cartrefol i mi erioed gan mai dyma oedd cartref Nain a Taid, ac er bod rhannau o'r cerddi'n trafod rhyw ddieithrwch o fewn y ddinas, mae'n siŵr bod unrhyw un sydd wedi byw yma am gyfnod estynedig yn medru deall y berthynas ryfedd sy'n amlygu ei hun yn y cerddi.***

***Dydw i ddim am siarad dros bob un dinesydd. Cerddi sy'n trafod fy mherthynas bersonol innau â Chaerdydd yw'r rhain. Maent yn edrych ar stâd ein prifddinas heddiw, yng ngolwg methiant y prosiect neo-ryddfrydol a'r datblygu echrydus y mae ein cyngor yn dewis cefnogi, y bygythiad cyson yn sgil newid hinsawdd, a'r haint echrydus yma rydym oll wedi gorfod ymdopi ag ef. Y gwewyr meddwl sydd yn codi o hyn oll yw seiliau'r cerddi, ac maent yn alwad i ni newid ein cyfeiriad fel dinas, a chanolbwyntio ar bobl, ar gymuned ac ar yr ysbryd dynol yn hytrach na'r diddordeb rhyfedd hwn mewn cyfalaf.***

***Gobeithio felly bod y cerddi wedi achosi i chi feddwl ychydig, ac wedi cynnig rhywfaint o obaith fod y pynciau hyn yn cael eu cydnabod ar lwyfan cenedlaethol. Mae'n ddyletswydd arnom ni i gyd fel dinasyddion i weld Caerdydd yn lle iach.***

# Colofn G.R.



*"Fe brofon ni wledd yn yr Eisteddfod AmGen eto eleni."*

Yn ystod yr haf "Chwifiwn ein baneri / yn yr awyr iach" odd hi, ond pa faneri gan fod Boris Johnson yn awyddus i weld baneri Jac yr Undeb yn ben yng Nghymru gyda'r bwriad o osod clamp o faner Seisnig ar draws ffenestr fawr adeilad newydd y llywodraeth ynghanol Caerdydd. Ond o fewn dim codwyd deiseb hefo miloedd yn arwyddo yn erbyn y fath ffolineb. Mae'n amlwg bod Boris a'i griw yn Llundain yn awyddus i wthio Prydeindod arnom ni ac felly bydd angen i ni fod yn effro i'r perygl ac i sicrhau nad aem fel gwlad yn rhan annatod o Loegr yn y dyfodol.

Tybed ydy darllenwyr y golofn hon yn mwynhau eu rhyddid wedi bron y cyfan o'r cyfyngiadau ar ein bywydau wedi codi ond gan gofio rhybudd Mark Drakeford nad ydy'r firws wedi diflannu ac felly ei fod yn ofynnol i ni ymddwyn yn gall yn ystod y rhyddid hwn.

Yn y cyfamser cynhaliwyd Eisteddfod AmGen am wythnos gyfan ar ddechrau Awst fel rhagflas i'r Eisteddfod a gynhelir yn Nhregaron y flwyddyn nesa heblaw bod y firws yn dychwelyd i ddrysu'r bwriad! Rhaid llongyfarch Betsan Moses prif weithredwr yr Eisteddfod a'i staff a phawb a fuodd ynghyd yn paratoi'r fath wledd a hon.

Daeth sawl gwobr i Gaerdydd a'r Fro gan gynnwys dwy wobr ganu i Lili Mohammad o Ysgol Gyfun Plasmawr a'i thad Jason Mohammad ymhell o Gymru ar y pryd yn cyflwyno rhaglenni o Tokyo yn ystod y Chwaraeon Olympaidd!

Yna, enillwyd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn gan ŵr o'r enw David Thomas gynt o Riwbeina ond sy bellach yn byw yn Talog yn Sir Gaerfyrddin lle mae o a'i bartner wedi sefydlu busnes cynhyrchu gin!

Eto daeth un o'r prif wobrau i Gaerdydd pan enillwyd y Goron gan Dyfan Lewis sy'n byw yn Grangetown bellach ond a gafodd ei fagu yn ardal Abertawe. Ei dad Emyr Lewis yn brifardd ac yn dod o Gaerdydd. Buodd y teulu yn aelodau ffyddlon yng Nghapel y Crwys a buodd taid Dyfan yn berchennog gwinllan ar gyrion Caerdydd!

Braf odd gweld y chwaraewr rygbi adnabyddus Jamie Roberts a chyn ddisgybl o Ysgol Gyfun Glantaf yn cymryd rhan yn Seremonïau'r Eisteddfod fel Ceidwad y Cledd yn absenoldeb Robin McBride odd draw yn Ne Affrig gyda thîm rygbi'r Llewod. Derbyniwyd Jamie yn aelod o'r Orsedd yn ystod yr Eisteddfod ym Mae Caerdydd nôl yn 2018.

Ar ddiwedd yr Eisteddfod AmGen dangoswyd y Sioe *Y Mab Darogan* sef hanes Owain Glyndŵr ar S4C fel diweddglo teilwng i'r wythnos amGen. Fe'i perfformiwyd gan Gwmni Theatr Ieuenctid Maldwyn ac fe'i perfformiwyd am y tro cyntaf yn Eisteddfod Machynlleth nôl yn 1981. O'n i'n bresennol yn y pafiliwn y noson honno a daliaf i gofio'r wefr a phawb ar eu traed ar ddiwedd y Sioe yn cymeradwyo.

Yn ystod yr haf cafodd y genedl golledion ac yn eu plith Hazel Charles Thomas, Llandybie, Emyr Edwards, Radur a Roger Boore, Yr Eglwys Newydd. Buodd Hazel Charles yn athrawes Gymraeg lwyddiannus yn ardal Llanelli ond ar ôl ymddeol aeth i ddysgu Cymraeg am ddwy flynedd yn yr Andes ym Mhatagonia ac mae dau o'i chyn ddysgwyr yn byw yng Nghymru bellach a'r ddau sef Sandra De Pol ac Isaias Grandis wedi ennill cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn y Genedlaethol yn Llanelli (2000) a Bro Morgannwg (2012).

Buodd Emyr yn amlwg ym myd y ddrama yng Nghymru ac yn un o Sylfaenwyr a Chyfarwyddwr Cwmni Theatr Genedlaethol yr Urdd ac yn ddarlithydd drama yn yr Hen Goleg Hyfforddi Athrawon yn y Barri ac ym Mholytechnig Cymru ym Mhontypridd. Ei dad odd y prifardd J.M.Edwards, y Barri ond gynt o Lanrhystud yng Ngheredigion.

Brodor o Gaerdydd odd Roger Boore ond cafodd ei fagu yn Lloegr cyn dychwelyd i fyw yng Nghaerdydd a dysgu'r iaith ac yn 1969 gwnaeth o a'i wraig Ann sefydlu Gwasg y Dre Wen gan ganolbwyntio ar gynhyrchu toreth o lyfrau Cymraeg deniadol a lliwgar ar gyfer plant a phobl ifanc. Ymhlith y llyfrau a gyhoeddwyd odd nifer o lyfrau ASTERIX a BABAR ac yn 1981 cyhoeddwyd *Llyfr Hwiangerddi'r Dre Wen* odd yn cynnwys dros 500 o hwiangerddi a rhigymau. Coffa da am y tri hyn a wasanaethodd y genedl mor anrhydeddus.


## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Roger Boore

Ar ddiwedd Gorffennaf, bu farw Roger Boore o'r Eglwys Newydd yn 82 mlwydd oed. Roedd gwreiddiau Roger yn ddwfn yn y brifddinas. Fe'i ganed yma yn 1938 yn fab i Walter a Bronwen ac er symud i fyw i Birmingham bron ar unwaith wedi ei eni ac wedyn i Leamington Spa ym mlynyddoedd cynnar y rhyfel, roedd ei Gymreictod yn bwysig tu hwnt iddo ac yn ganolog i'w fywyd drwyddi draw.

Er nad oedd Cymraeg ar yr aelwyd roedd Roger yn gwybod taw Cymro ydoedd ac yn ystod ei amser yn Warwick School aeth ati i ddysgu'r Gymraeg pan yn 14 mlwydd oed. Aeth ymlaen wedyn i ennill Ysgoloriaeth Agored yn y Clasuron ac Athroniaeth i Goleg yr Iesu, Rhydychen.

Ym 1967, ac yntau'n Gyfrifydd Siartredig erbyn hyn, daeth i weithio i Coopers yng Nghaerdydd. Ond yn 1969, dechreuodd y bennod nodedig o sefydlu Gwasg y Dref Wen gyda'i wraig Anne. "Dim ond y gorau sy'n ddigon da i blant Cymru" oedd ei fantra.

Ac yntau'n magu teulu ifanc erbyn hyn, sylweddolodd cyn lleied o lyfrau Cymraeg oedd ar gael i blant, a pha mor llwm oedd eu diwyg. Roedd yna bwyslais felly o'r dechrau ar gyhoeddi llyfrau lliwgar storïol, ac fe esblygodd y wasg i gyhoeddi llyfrau addysgol a llyfrau dwyieithog maes o law. Mae cyhoeddiadau'r wasg dan ei reolaeth yn cynnwys *Y Geiriadur Lliwgar*, cyfresi *Storïau Hanes Cymru* a *Llyfr Hwiangerddi y Dref Wen*. Dyma'r un yr oedd yn fwyaf balch ohono, mae'n debyg. Ond mae'n bosib mai ei drosiad o wyth llyfr Asterix rhwng 1976 ac 1982 oedd yn dangos ei ystod ddoniau. Roedd y trosiadau yn gampweithiau – yn dangos ei feistrolaeth o iaith a geiriau; ei wybodaeth o'r clasuron; ei hiwmor a'r ffaith ei fod yn hanesydd. Mae'r enwau fel Crycymalix yn parhau i wneud i ni chwerthin a'r chwarae ar eiriau drwyddi draw mor glyfar.

Cafodd yr anrhydedd uchaf ym maes llyfrau plant yng Nghymru, Tlws Mary Vaughan Jones yn 1997 am ei gyfraniad i'r maes. Cafodd hefyd ei dderbyn yn aelod o Orsedd y Beirdd a'i urddo â'r wisg las yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy yn 2016. Wrth dalu teyrnged iddo, dywedodd ei deulu y bydd ei waddol "yn parhau trwy lyfrau'r Dref Wen sydd wedi dod â chymaint o fwynhad i filoedd o blant Cymru dros y degawdau".

Roedd ei deulu yn ganolog i fywyd Roger ac yntau'n ŵr i Anne, yn dad i dri o feibion – Gwilym, Rhys ac Alun – a'r tri wedi priodi a magu teulu yn y brifddinas. Roedd yn dad-cu balch a'i saith o ŵyrion ac wyresau yn gannwyll ei lygaid. Bu'n gefnogwr brwd ohonynt drwy eu gyrfa yn Ysgol Melin Gruffydd a Glantaf ac mae tri bellach yn y Brifysgol.

Uchelgais Roger wrth sefydlu'r Dref Wen oedd hyrwyddo dyfodol Cymru a'r Gymraeg a'u gweld yn ffynnu. Dengys y teyrngedau lu i Roger wedi ei farwolaeth ei fod yn sicr wedi cyflawni hynny. Coffa da amdano.

*Rhys Boore a'r teulu*

## Cronfa Rieni a Staff Plasmawr ( CRASP)

Mae Cronfa Rieni a Staff Plasmawr( CRASP) yn ddiolchgar iawn i Gronfa Glyndwr am eu grant tuag at ein prosiect ysgol diweddaraf. Mae Lles yn ran bwysig iawn o flaenoriaethau yr ysgol ac mae hyn wedi bod yn bwysicach nac erioed dros y flwyddyn diwethaf. O ganlyniad mae'r ysgol wedi penderfynu addasu y llawlyfr blynyddol gan greu llawlyfr sydd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a bydd yn cyfeirio disgyblion (a theuluoedd) at fudiadau a gwefannau arbenigol a all helpu.

Elusen yw Cronfa Glyndwr a sefydlwyd yn 1963 gan Trefor a Gwyneth Morgan i hyrwyddo addysg Gymraeg a chynnig cymorth i rieni sydd eisiau i'w plant fwynhau manteision addysg ddwy-ieithog. Ei nod yw 'gwneud gwahaniaeth'. Mae'r Gronfa yn cynnig grantiau i gylchoedd Meithrin a Ti a Fi, ysgolion cyfrwng Cymraeg a Mentrau Iaith i'w helpu i farchnata eu darpariaeth ac i wella eu hadnoddau. Mae'r gronfa yn ddiolchgar iawn i'r noddwyr hael sy'n eu cefnogi yn ariannol, oherwydd hebddynt ni fyddai modd i'r Gronfa ddiwallu'r galw. Byddai'r Gronfa wrth eu bodd yn denu rhagor o noddwyr i'w cefnogi. Ceir mwy o wybodaeth ar eu gwefan CronfaGlyndŵr.cymru.

Bydd y grant yn helpu i dalu am lawlyfr ar gyfer pob disgybl o fewn yr ysgol ar gyfer Medi 2021. Bydd yn cynnwys adnoddau lles a meddylgarwch a thasgiau wythnosol i hybu meddwl iach. Mae llawer o elusennau Iechyd Meddwl yn creu adnoddau o ran ymarferion meddylgarwch a thasgau i ddatblygu ein lles emosiynol felly byddwn yn tynnu sylw at y rhain. Bydd y Llawlyfr Lles newydd yn cyfuno dyddiadur traddodiadol gyda thasgau lles wythnosol a chyfeirlyfr o weithgareddau sydd yn gofalu am ein hiechyd meddwl ac yn datblygu ein gwydnwch i fod yn ddysgwyr da.

Bydd yn adnodd newydd cyffrous fydd yn annog Cymreictod o fewn yr ysgol ac yn ennyn teimlad o berthyn i gymuned yr ysgol.

Dros y flwyddyn anodd diwethaf mae CRASP wedi blaenoriaethu ariannu nifer o brosiectau sydd wedi helpu plant i ddysgu o adref a sicrhau cyfleoedd cyfartal i holl disgyblion yr ysgol. Mae lles emosiynol disgyblion yn bwysig iawn i Ysgol Plasmawr ac yn ganolbwynt i bob agwedd o ddysgu. Bydd cyfraniad at y llawlyfr gan Gronfa Glyndwr yn help mawr i CRASP barhau i ariannu elfennau eraill o fewn yr ysgol e.e bws mini, radio Plasmawr, tâl blynyddol at adnoddau ar-lein, llechen / cyfrifiaduron ychwanegol ar gyfer adrannau ac yn y blaen.

Diolch eto Cronfa Glyndwr

# Colofn Natur

*Dewch am dro gyda mi i'r Oes Carbonifferaidd.*

Gethin Jenkins-Jones



Mae hanes natur yn bwnc o ddiddordeb mawr i mi, a braf bydd gweld mwy ohono yn cael ei ddysgu mewn ysgolion. Mae'r tir dan ein traed yn llawn atgofion o dirweddau amryw a rhyfeddol, â chyfrinachau amodau a chreaduriaid pob Oes i'w gweld yn y gwaddod a'r graig. Fel pob man arall yn y byd, mae edrychiad tirwedd Caerdydd wedi gweld newidiadau sylweddol ar hyd ei hanes. Felly dros y misoedd nesaf byddaf yn eich cymryd ar daith drwy wahanol benodau o hanes ein hardal, o ddiwedd Oes y Carbonifferaidd i'r amser presennol, yn dathlu'r bywyd gwyllt a fodolai yma ar wahanol adegau. I gychwyn y gyfres dwi 'di dewis ein cymryd ar drip i 310 miliwn o flynyddoedd yn ôl - at ecosystem a ddaeth yn holl bwysig i ddyfodol dynol y wlad ac yn arbennig i Gaerdydd.

Roedd y Carbonifferaidd yn adeg gyffrous i fywyd y ddaear. Dros yr oesoedd cynt - ar ôl 3 biliwn o flynyddoedd yn y môr - dechreuodd organebau symud i fyw ar y tir. Yn gyntaf daeth y planhigion, yna'r trychfilod, a thua 375 miliwn blwyddyn yn ôl llusgwyd y fertebratau cyntaf eu hun allan o'r dŵr. Yn ara deg trodd tirweddau diffaith caregog y ddaear i rai â bioamrywiaeth gynyddol, ac erbyn diwedd y Carbonifferaidd bodolai ecosystemau cymhleth o goedwigoedd glaw am y tro cyntaf.

Gorweddai Caerdydd yn agos at y cyhydedd yn ystod diwedd y cyfnod hwn (yn agos at dir a ddaeth yn Ogledd America), ac fel heddi roedd yn agos i'r arfordir. Wrth gerdded allan o'n peiriant amser ar unrhyw fore o'r flwyddyn, yr hyn a welwn o'n blaenau yw ardal eang o goedwig niwlog, gorsiog, a phyllau ym mhob man. Mae'n llaith ac yn boeth, a byddwn ni'n sylwi'n o gloi nad oes angen anadlu mor ddwfn yn y byd hwn. Diolch i ffotosynthesis, yn ystod y Carbonifferaidd esgynnodd lefelau ocsigen i 35% o gyfansoddiad yr aer - llawer uwch na 21% heddiw. Mae'n dawel hefyd, ag ond sŵn y pry neu ambell frigyn yn torri ar y glust. Mae rhai o'r coed o'n hamgylch yn anferth - yr uchaf yn fwy na 40 metr o faint. Wrth edrych arnynt yn ofalus mae'n amlwg nid ydy'r rhain yn debyg i'n coed presennol. Mae'r talaf ohonynt o'r teulu diflanedig y Lycopods, a thyfai yn un boncyff hir efo'u brigau a dail 'mond yn y canopi. Hefyd yn tyfu'n uchel yw coed o deulu'r Calamies - hen hynafiaid yr *horsetails* sy' dal efo ni heddi. (Dychmygwch drio chwynnu'r rheiny o'r ardd!) Nid oes llawer o greaduriaid sy'n bwyta planhigion yn byw yn yr oes hon, felly mae modd i'r coed dyfu'n uwch na llawer o'n coed heddi.



Mae sŵn adenydd fel hofrennydd bach yn deffro'r synhwyrau, ac mewn fflach mae gwas-y-neidr maint colomen yn gwibio heibio cyn glanio ar frigyn cyfagos uwchben y dŵr - Meganeura! Efo hyd adenydd yn ymestyn dros 70 cm, nid oes pryfyn mwy o faint wedi bodoli erioed. Heb adar, pterosoriaid neu ystlumod i gystadlu yn eu herbyn, rhain oedd brenhinoedd yr awyr, a diolch i'r lefelau uwch o ocsigen roedd modd iddynt dyfu i feintiau mawr heb drwbl. Byddwn siŵr o ffeindio pry anferth eraill petai gennym fwy o amser - yn cynnwys o bosib mathau o filtroed dros droedfedd o faint. Ond mae sgan olaf â'n binocwlars yn rhoi un sypreis neis i gloi. Ar ymyl y pwll agosaf yn syllu am bysgod yn y dŵr mae Temnospondyl - hynafiad brogaod, ond ag edrychiad fel crocodeil bach tew â thraed gwefain bychan.



***Meganeura***

***Temnospondyl***



Felly pam y dylen ni fel Cymry ddiolch i'r ecosystem hon? Wel, tua 6 miliwn mlynedd yn ddiweddarach trodd yr hinsawdd yn sychach a daeth y coedwigoedd glaw i ben - gan ffurfio glo. Wrth gwrs nid ydy hwn yn adnodd i'w ddathlu heddi, ond does dim dadlau'r effaith chwyldroadol y cafodd ar ddatblygiad ein cenedl. Felly mae'n hen amser i ni werthfawrogi'r Oes Carbonifferaidd, ac organebau'r cyfnod sydd dal efo ni heddi. Mae gwas-y-neidr, miltroed, *horsetails* a mwy o'r cyfnod dal i'w ffeindio heddi ac, mewn ffordd, wrth eu gweld rydym yn edrych yn ôl ar un o benodau cyntaf cyffrous ein gwlad.

*Lluniau: Laura Giles*

# NEGES O'R ALMAEN

## Lowri Haf Cooke yn holi Carys Huws



*Mae Carys Huws sy'n 30 oed ac yn wreiddiol o Ffynnon Tâf yn byw yn ninas Berlin ers 2017. Mae hi'n gweithio fel ffotograffydd a chyfarwyddwr ffilm ar brosiectau ffasiwn, cerddoriaeth a chelf.*

**Beth yw'r sefyllfa yn ninas Berlin ar hyn o bryd**?
O beth dwi'n deall mae nifer yr achosion Covid-19 yn cynyddu unwaith eto ac mae'r llywodraeth yn pryderu bydd *lockdown* arall cyn hir - er nad ydyn nhw yn meddwl bydd y *lockdown* mor llym â'r un diwethaf. Mae rhaid gwisgo masgiau FFP2 ym mhob siop a'r rhan fwyaf o lefydd cyhoeddus dan do (mae'r rheol yma wedi bodoli ers diwedd 2020). Dwi wedi sylwi bod pobl yn parchu'r rheol ynglŷn â gwisgo masgiau lot yn fwy yn yr Almaen na Chymru - os ydych chi'n *'medically exempt'* o wisgo un, mae rhaid cael tystiolaeth gan ddoctor a dangos hwn bob tro cyn mynd mewn i siop neu le cyhoeddus.

**Ble oeddech chi yn ystod mis Mawrth 2020, a sut newidiodd eich byd yn ystod yr argyfwng?**
Roeddwn i yma ym Merlin. Y pethau mwyaf a newidiodd i fi oedd colli gwaith yn y misoedd cyntaf a bod methu mynd nôl i Gymru - es i adref am y tro cyntaf ers cyn y pandemig yn mis Mehefin eleni.

**Beth yw patrwm arferol eich diwrnod ar hyn o bryd?**
Dwi'n codi, mynd â'r ci am dro, yfed coffi yn fy ffenest ac ysgrifennu *'Morning Pages'* - tair tudalen o 'free *flow thought'* cyn dechrau gweithio - cymysgedd o 'saethu', gweithio wrth fy nghyfrifiadur a chyfarfodydd. Mae patrwm fy mywyd i yn eithaf tebyg i cyn y pandemig ar hyn o bryd - dwi'n gweld ffrindiau ac mae gwaith wedi pigo lan eto - mae pethau yn bendant yn teimlo yn eithaf 'normal' am y tro!

**Beth ydych chi'n ei golli fwyaf? A fedrwch chi ddweud bod rhywbeth 'da' wedi dod o hyn? Beth ydych chi wedi'i ddysgu dros y flwyddyn a hanner diwethaf?**
Y peth mwyaf dwi'n colli yw fy Anti Dorothy, chwaer fy mam - bu farw hi ar ôl dal Covid yn mis Rhagfyr ac roedd yn brofiad eithaf trawmatig i'n teulu ni, yn enwedig gan fod ni methu bod gyda'n gilydd. O ran pethau da - dwi'n falch bod y pandemig wedi rhoi pethau mewn i bersbectif i fi o ran beth yw'r pethau pwysig mewn bywyd. Dwi hefyd wedi dysgu i fod yn fwy caredig a deallus gyda fy hun a phawb o fy nghwmpas i.



**Oes gen ti arddangosfa ar hyn o bryd, neu waith celf ar y gweill yr hoffet rannu â darllenwyr *Y Dinesydd*?**
Mae fy ngwaith i a gwaith artist arall Cymreig - Manon Awst - yn cael ei arddangos a'i gynnwys fel rhan o arwerthiant yma ym Merlin o'r enw Direkte Auktion sy'n rhedeg tan Fedi 25. Cychwynnodd Direkte Auktion y llynedd fel ffordd o helpu'r byd celf ac artistiaid y ddinas yn ystod y pandemig - "*a grassroots revolution for the art market from Berlin, in Berlin, meant for Berlin as well as the rest of the world".* Mae timau o guraduron yn dewis gweithiau celf ac arteffactau o'r ddinas, sydd yn cael eu harwerthu yn fyd-eang ar-lein ar ôl rhagolwg mewn orielau a *'project spaces'* yn y ddinas. Cyd-ddigwyddiad llwyr yw hi ein bod ni'n dwy wedi cael ein gwahodd i gymeryd rhan eleni - dydyn ni erioed wedi cwrdd â'n gilydd. Mae gen i gyfres o polaroids o Berlin Strippers Collective ar werth - dwi wedi bod yn cydweithio â nhw dros y flwyddyn a hanner dwetha. Mae'r celf sydd ar werth a mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan: https://direkteauktion.com/

Pianos Bing
Gwasanaeth Tiwnio Pianos Caerdydd a'r Fro
07508063929
www.pianosbing.cymru
pianosbing@gmail.com

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ym mis Gorffennaf croesawyd dau ŵr adnabyddus i aelodau'r Aelwyd.



Ar Orffennaf 2il, y Parchedig Denzil John, bardd, canwr, llenor a gweinidog o blith enwad y Bedyddwyr a chyn weinidog Tabernacl yr Ais a Thonyfelin, Caerffili oedd y siaradwr. Arweiniodd bawb ar gyfrwng Zoom ar daith a alwodd yn "Dylanwadau ar y daith" - triongl Sir Benfro, fyny i Sir Fôn a nôl i ardal Caerffili. Darluniodd ei gariad at ei fro enedigol o Gwm Cerwyn, y Preseli, Cromlech Pentre Ifan, Castell Henllys, Rhydwilym, Efailwen a Bro Waldo – ardal a fu'n gartref i saith cenhedlaeth o'i deulu. Yn ei ddauddegau daeth ardal Sir Fôn yn bwysig iddo, lle cyfarfu â'i briod – ardal fel Trearddur ac eraill. Cafodd ardal a mynydd Caerffili argraff fawr arno ym mlynyddoedd ei weinidogaeth hir. Diolchwyd iddo am ei ddisgrifiadau byw o'i brofiadau "ar y mynyddoedd gyda Duw".



Ar Orffennaf 16eg y Gwir Barchedig Barry Morgan, cyn-archesgob Cymru a'n tywysodd ar daith o'i ieuenctid yng Ngwaun Cae Gurwen, Cwm-gors, Ystalyfera, cyfnod coleg yn Llundain a Chaergrawnt ac fel Esgob Bangor ac Archesgob Cymru. Atgoffodd y gwrandawyr o Hanes yr Eglwys yng Nghymru trwy'r canrifoedd, trwy Oes y Seintiau a'r Canol Oesoedd hyd at y cyfnod presennol. Pwysleisiodd bwysigrwydd cyfieithu'r Beibl i barhad y Gymraeg. Gwnaeth rannu hanes yr Eglwys hyd at y dydd heddiw gan egluro datblygiad yr Eglwys yng Nghymru. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad anhygoel a helaeth fel arweinydd ac Archesgob.

Bydd yr Aelwyd yn ail-gychwyn ar Zoom ar ddydd Gwener, Medi 10fed am 2.00 o'r gloch gydag anerchiad gan y Parchedig Aled Gwyn. Mae croeso i chi ymuno trwy gysylltu ar e-bost—aelwydhamdden@gmail.com

## Soned 'Yr Haint' yn fuddugol

Martin Huws o Gaerdydd enillodd gystadleuaeth y soned yng Ngŵyl Fawr Aberteifi a'r testun oedd 'Yr Haint'.

Dywedodd y beirniad, Elinor Wyn Reynolds o Gaerfyrddin, fod wyth wedi cystadlu ac yn nhymor yr haint, y Covid, roedd yn iawn fod y testun wedi'i ddewis. 'Mwynheais ddarllen y sonedau bob un,' meddai, 'ac roedd rhywbeth bachog neu drawiadol ymhob un. Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd.'

'Roedd soned Otto, meddai, am benderfyniad y Natsïaid yn 1933 i losgi llyfrau 'peryglus' yn Bebelplatz Berlin. 'Yr haint yn y fan yma yw rhagfarn y Natsïaid, eu casineb, eu hofn nhw o bethau yr oedden nhw'n eu hystyried y tu allan i'w cyfundrefn gul nhw. Dim ond un ffordd o feddwl oedd i fod, dim ond un ffordd o fyw, a dim ond un math o bobl ddylai gael byw.

'Mae'r gerdd yn ddeallus, yn drawiadol ac wedi'i hysgrifennu'n dda. Mae'r mynegiant barddonol yn glir a chroyw ac mae sawl disgrifiad sy'n taro deuddeg. Ergyd y soned yw, er gwaetha'r difa gwallgof, nid yw'n bosibl difa syniadau.'



***safle llosgi'r llyfrau ym Merlin***

**Yr Haint**

*Bebelplatz, Berlin*

Yng ngwres y foment gwawriai'r nos yn goch,
mewn fflamau gwyllt roedd drychiolaethau rhyfedd.
O dan eu swyn fe waeddai'r dorf yn groch.
Fe wedodd rhai taw hwn oedd dechrau'r diwedd.

Fe af i'n ôl i rywle sy'n coffáu
y goelcerth hy gynhyrfai oes wahanol,
y silffoedd gwag yn dyst i'n rhyddid brau
cyn sgubwyd ni gan gorwynt croch dinistriol.

Am hyn oll, Dduw, a wnei Di i ni faddau?
Cyfrolau Freud a Marx a drodd yn llwch.
Am hanner nos yn wallgo dawnsiai fflamau
eu gweledigaeth bur, y mwg yn drwch.

Y ffagal fflwch yn adrodd hanner stori:
er gwaetha'r gwres, syniadau ddim yn llosgi.

'Diolch i'r pwyllgor am drefnu Steddfod yn ystod cyfnod heriol,' meddai Martin. 'Gan fod y byd yn mynd yn fwy anoddefgar, yn enwedig ar ôl Brecsit, ro'n i'n twmlo bod y soned yn amserol.'

Yn yr un Eisteddfod daeth yn drydydd yng nghystadleuaeth yr englyn a'r beirniad y tro hwn oedd Aneirin Karadog. Dyma'r englyn:

**Cofio**

*Y cynghorydd sir*

Llais cras o deulu'r asyn – hy ei farn,
yn fwrn ar ei gyd-ddyn.
Emlyn yn fwlsyn a fyn
nadu am ryw droednodyn.

''Wy ddim am enwi neb,' meddai Martin, 'ond ma' sawl cynghorydd wedi bod yn ysbrydolieth.'

Mae Gwasg y Bwthyn wedi cytuno i gyhoeddi cyfrol o farddoniaeth Martin.

# Atgofion am 'Datsh': Sgwrs gyda Mrs Megan Grant, Y Barri am Lewis Williams, cymwynaswr Tŷ'r Cymry, Caerdydd

***Bu tipyn o sôn yn ddiweddar am Dŷ'r Cymry yn Heol Gordon, a roddwyd gan Lewis Williams i Gymry Caerdydd yn Chwefror 1936. Ond pwy oedd Lewis Williams? Ar gais Y Dinesydd bu Dr Sian Rhiannon Williams yn sgwrsio â'i wyres, Mrs Megan Grant, i ddarganfod rhagor am ei 'Datsh'.***

Atgofion plentyn sydd gan Megan Grant am ei thad-cu, Lewis Williams, ac maent yn rhai hapus a chadarnhaol. *'He was such a lovely grandfather!'* meddai, wrth i ni gynnal ein sgwrs dros zoom yn ddiweddar.



Mae Megan yn 97 oed erbyn hyn ond mae'n cofio'n glir bod llawer o chwerthin yn digwydd yng nghwmni Datsh nôl yn y 1920au a'r 1930au. Dyma'r cyfnod pan fyddai hi a'i chwaer Myfanwy a'i brawd, Iori (Iorwerth), yn neidio i'w wely i gwtsho gydag e' yn y boreau, a phan fyddai Iori'n cwrso ei dad-cu o amgylch y cae ger y tŷ gan fygwth taflu tail ato, a Datsh yn chwerthin yn braf. Mae'n cofio'r diwrnod trist pan oedd 'pwsi wedi marw' a Datsh yn cynnal gwasanaeth angladdol iddi. Cymraeg oedd iaith yr angladd a Chymraeg yn unig siaradai Datsh â'i wyresau a'i wyrion. '*We had to answer in Welsh'*, meddai. Pan alwai eu ffrindiau heibio i ffermdy Tonteilwr ger Nelson, byddai Datsh yn gofyn, 'Ti mo'yn losin?' ac yn eu gwobrwyo wedyn am ateb yn Gymraeg. Roedd wrth ei fodd yng nghwmni plant.

Roedd Datsh yn Rhyddfrydwr o argyhoeddiad y pryd hwnnw. Roedd yn gynghorydd lleol a byddai'n mynd allan i gyfarfodydd yn aml. A gwleidyddiaeth, meddai Megan, oedd y rheswm pam y bu i'r teulu ymadael â Thonteilwr pan oedd hi tua phum mlwydd oed. Tori oedd perchennog y fferm a byddai'r asiant yn dod i'r drws ar adeg etholiad i ofyn i'r tenantiaid bleidleisio dros y Ceidwadwyr. Gwrthodai Datsh wneud hynny. Yn wir, byddai'n mynd ati i heclo'u hymgeiswyr. Dirywiodd cyflwr y tŷ fferm o ganlyniad, oherwydd gwrthodai'r landlord ei atgyweirio. Yn y pen draw, penderfynodd Datsh y byddai'n well iddynt symud, ac ar ôl cyfnod mewn tŷ rhent yn Nelson, prynodd fferm Gibbonsdown a oedd ar gyrion y Barri y pryd hwnnw. Yno y magwyd Megan, a Datsh yn dod atyn nhw i aros yn gyson iawn.

Yn fab i weinidog gyda'r Bedyddwyr, roedd Lewis Williams yn gapelwr ac yn ddiacon. Yn ôl Megan, bu'n astudio yn un o golegau diwinyddol y Bala, ac mae'n ei gofio'n siarad yn gyhoeddus yn y capel ac yn trafod y pregethau. Mae'n cofio cerdded i'r capel ddwywaith ar y Sul gan afael yn ei law – hithau ar y naill ochr a'i chwaer ar y llall – ac yntau'n camu ymlaen yn gyflym.

Daeth Datsh yn ddyn busnes llwyddiannus ac nid oedd yn brin o arian. Deilliai ei gyfoeth yn rhannol o etifeddiaeth teulu ei wraig a fu farw cyn geni Megan. Sefydlodd fusnes gwasanaethau ariannol gan drefnu benthyciadau i bobl. Roedd ganddo fuddsoddiadau hefyd, a dyna a'i galluogodd i brynu ffermydd a thai. Roedd ganddo lawer o dai yn y Barri a sawl un yng Nghaerdydd, gan gynnwys y tŷ yn Gordon Road a gyflwynodd i Gymry'r ddinas. Yn ôl ei wyres, roedd yn falch iawn o allu cefnogi'r iaith Gymraeg, a sefydlodd ymddiriedolaeth i gynnal y tŷ.

Mae Megan yn cofio Datsh yn gwneud ei gyfrifon yn ei stydi, a soniodd amdano'n cerdded strydoedd y Barri gyda'i 'Gladstone Bag' yn casglu rhenti, gan aros allan am oriau yn sgwrsio â hwn a'r llall. Roedd yn adnabyddus yn lleol ac roedd parch tuag ato. Byddai'r dynion yn codi cap a'r menywod yn gwneud cyrtsi bach wrth ei gyfarch.

Roedd yn ŵr caredig, ac er ei fod yn gefnog roedd ei haelioni'n ddiarhebol. Prynodd fferm o'r enw 'Broadclose' ger Llancarfan a'i rhentu i deulu mawr, gan dalu eu costau i symud yno. Cyfrannai arian i gynnal y capel a byddai'n cyflwyno llyfrau fel gwobrau. Byddai Megan a'r plant eraill yn cael hanner sofren ganddo yn gyson. *'He was very, very kind to us'*, meddai. Roedd wedi gofyn iddi un tro a fyddai'n hoffi iddo brynu tŷ iddi yng Nghaerdydd. 'Na, dim diolch', oedd ei hateb, 'byddai'n well 'da fi gael poni!'

Un stori ganddi oedd honno am yr adeg y bu hi'n dost ac wedi colli pwysau. Roedd Datsh yn gofidio ac wedi galw doctor i'w harchwilio, a hwnnw wedi datgan nad oedd dim o'i le yn gorfforol, ond taw galaru roedd hi. Trefnodd ei thad-cu bod ei hwncwl yn ei gyrru hi o gwmpas ffermydd y teulu yn ei gar oherwydd credai y byddai hynny'n llesol iddi. Ond doedd e' ddim yn fodlon iddi hi na phlant eraill y teulu gael eu brechu, meddai Megan.

Pan oedd Megan yn ddeuddeg oed, galwodd hi i'w swyddfa a rhoi iddi'n anrheg flwch oedd hefyd yn ddesg ysgrifennu, a lle i gadw offer y tu mewn iddo. Dywedodd wrthi ei fod wedi rhoi'r ddesg fach i'w ferch, Blodwen, modryb Megan, pan oedd hithau'n ddeuddeg oed. Bu Blodwen farw'n ifanc pan oedd ar fin priodi â mab gweinidog hen gapel enwog y Bedyddwyr yn Hengoed, capel Datsh. Roedd hi'n ferch ddawnus a charedig ac roedd Datsh wedi galaru'n hir ar ei hôl. Trysorai Megan y rhodd honno.

Cenedlaetholwr oedd Datsh, a phan sefydlwyd Plaid Cymru daeth yn gefnogwr brwd. Byddai'n teithio i Ysgol Haf y Blaid bob blwyddyn ac yn cyfrannu cryn dipyn o arian. Mae Megan yn cofio Saunders Lewis yn galw i weld ei thad-cu ar y fferm yn y Barri, yn aros i swper ac yn siarad Cymraeg â hi a'i chwaer a'i brodyr mewn iaith syml y gallen nhw ei deall. Er bod Datsh yn 86 mlwydd oed ym 1936, wnaeth hynny mo'i atal rhag teithio'r holl ffordd i Bwllheli i brotestio yn erbyn yr Ysgol Fomio.

Gofynnais i Megan beth fyddai ymateb ei thad-cu petai'n gwybod am yr holl ysgolion Cymraeg yn ardal y Barri a Chaerdydd heddiw. *'Oh, he would have been delighted!'* oedd ei hateb. Cefnogodd Megan addysg Gymraeg yn y Barri am flynyddoedd lawer drwy weithio fel glanhawraig a gofalwraig yr ysgol gyntaf yn Nhregatwg ac yn Sant Ffransis wedyn.

Doedd Megan ddim gartref pan fu farw Datsh. A hithau'n dair ar ddeg oed, roedd newydd ddechrau fel morwyn mewn cartref nyrsio yn Llundain. Ond adroddodd hanes y digwyddiad fel petai'n fyw yn y cof o hyd.

Roedd hi'n adeg y Nadolig, a mam Megan yn brysur yn pluo ieir ar y fferm ar gyfer eu dosbarthu i'w chwsmeriaid. Gofynnodd i Datsh ddisgwyl iddi orffen ei thasg er mwyn iddi allu mynd gydag e' i gasglu'r rhenti, ond mynnodd fynd ar ei ben ei hunan. Erbyn hynny, byddai'n crymu wrth gerdded ac yn defnyddio ffon – ffon hardd a gyflwynwyd iddo fel anrheg diolch, meddai Megan. Yn Hannah Street y digwyddodd y ddamwain. Trawyd Datsh gan dacsi wrth iddo groesi'r heol; anafwyd e' a thorrwyd ei glun. Doedd dim arian yn ei fag, felly rhaid taw newydd gychwyn mynd o gwmpas oedd e'.

Prin oedd y cyfleusterau ar y fferm, felly er mwyn iddo gael y gofal gorau talwyd am ystafell yn Ysbyty Amy Evans yn y Barri ac am ddwy nyrs i ofalu amdano, a mam Megan yn ymweld bob dydd. Roedd torri clun yn anaf difrifol iawn y pryd hwnnw, yn enwedig i berson oedrannus, ac yn anffodus, dirywio a wnaeth Datsh a bu farw ar 20 Rhagfyr 1938.



*Megan gyda'i chwaer hŷn Myfanwy a'i brodyr Iorwerth ac Islwyn ar y fferm yn y Barri*
*Lluniau y teulu*

Chafodd Megan ddim dychwelyd o Lundain i fynychu angladd barchus ei thad-cu a gynhaliwyd yn hen gapel Hengoed. Bu hynny'n achos gofid a hiraeth iddi a hithau mor hoff o Datsh. *'Everybody loved him'*, meddai. *'He stood by what he believed in – he was wonderful!'*

*Sian Rhiannon Williams*

*Gyda diolch i Mrs Megan Grant ac i Owain, Bryan a Carol Grant am eu cymorth.*

---

## *'Un o gyhoeddiadau pwysicaf 2021'*

**Cyfrol arbennig o hardd,**
**clawr caled; 231 tudalen,**
**104 o luniau,**
**a phob llyfr wedi'i rifo.**


**Cyfrol yn diolch o galon i**
**bob meddyg a holl weithwyr**
**y Gwsanaeth Iechyd,**
**ac i bawb sy'n rhannu**
**eu cariad a'u gofal dros eraill.**

**Portreadau o bedwar seiciatrydd**
**o Gaerdydd a Chaerffili.**

**Unrhwy elw i :**
**Gofal Dydd Waengoleugoed,**
**ger Llanelwy,**
**a Stafell Fyw, Caerdydd.**

**Nid bomiau i ladd**
**Ond iechyd i'r claf.**
**Pryderi Llwyd Jones**

**Cyhoeddiadau'r Gair Pris: £15**



## Myfyrwraig yng Nghaerdydd yn ennill Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021.

**Megan Angharad Hunter** yw enillydd Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021, gyda'i nofel *tu ôl i'r awyr* (Y Lolfa).

Fe gyhoeddwyd bod nofel Megan Angharad Hunter wedi dod i'r brig yn y categori ffuglen ar ddydd Llun 2 Awst, cyn mynd ymlaen i gipio'r teitl Llyfr y Flwyddyn 2021 ar 4 Awst.

Nofel ddoniol a thorcalonnus sy'n cynnig cipolwg ysgytwol ar fywyd oedolion ifanc na welwyd ei thebyg mewn print yn y Gymraeg o'r blaen yw *tu ôl i'r awyr*. Mae Anest a Deian yn y Chweched Dosbarth a phan maen nhw'n cwrdd, mae byd y ddau yn newid am byth. Dyma nofel sydd wedi'i disgrifio gan Manon Steffan Ros, cyn-enillydd Gwobr Llyfr y Flwyddyn ei hun, fel *"y nofel orau, fwyaf pwerus i mi ei darllen ers blynyddoedd. Mae'n ysgytwol."*




Ganed Megan Angharad Hunter yng Nghaerdydd cyn i'r teulu ymgartrefu yn Nyffryn Nantlle. Bellach mae'n astudio Cymraeg ac Athroniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ei gwaith wedi cael ei gyhoeddi yn *Y Stamp* ac *O'r Pedwar Gwynt*, ac yn 2020 enillodd Ysgoloriaeth Awdur Newydd Llenyddiaeth Cymru. *tu ôl i'r awyr* yw ei nofel gyntaf.

Mae Megan yn derbyn cyfanswm o £4,000 mewn gwobr ariannol, yn ogystal â thlws wedi ei ddylunio a'i greu yn arbennig gan yr artist Angharad Pearce Jones.

## Hanes Amrywiaeth Ethnig yn y Gymru Gymraeg

Dros yr haf cyhoeddwyd cyfrol y Dr Simon Brooks o Brifysgol Abertawe, *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig yn y Gwareiddiad Cymraeg* gan Wasg Prifysgol Cymru.

Dywedodd Dr. Simon Brooks:

"Rwy'n falch iawn fy mod wedi cael y cyfle i ysgrifennu'r gyfrol hon. Dwi'n gobeithio y bydd yn gwneud cyfraniad i ddealltwriaeth o amlethnigrwydd ac amlddiwylliannedd yng Nghymru.

"Mi ddechreuais i'r gwaith ymchwil ar gyfer y llyfr ryw bymtheng mlynedd yn ôl, ond mae amlddiwylliannedd yn bwysig imi ers yr 1980au pan oeddwn yn cael fy magu mewn teulu Cymraeg yn Llundain.


"O safbwynt syniadol, dwy thema sydd i'r gyfrol.

"Yn gyntaf, mae hanes amrywiaeth ethnig yn y gymuned Gymraeg ei hiaith yn cael ei hadrodd am y tro cyntaf. Dyma stori sydd yr un mor hen â'r genedl Gymreig ei hun. Mae'n cynnwys hanes pob math o grwpiau ethnig fel pobl ddu, Roma, Gwyddelod ac Iddewon.

"Hefyd, rwy'n dehongli amlddiwylliannedd ac amlethnigrwydd o safbwynt Cymraeg. Rwy'n gofyn beth sy'n wahanol am amlddiwylliannedd mewn cymuned ieithyddol sy'n lleiafrifol ei hun.

"Dros y blynyddoedd diweddar, bu diddordeb cynyddol mewn lleiafrifoedd ethnig ond ychydig sydd wedi ei gyhoeddi yn y Gymraeg. Cyfrol o dros 500 o dudalennau yw *Hanes Cymry*, ac rwyf wedi ymdrechu i lunio ymdriniaeth gynhwysfawr gan dorri tir newydd yn y maes."

Gellir cysylltu â'r Dr Simon Brooks am sgwrs pe dymunir ar: 07891 860393 neu s.brooks@swansea.ac.uk



## Dechrau Tymor Prysur o Weithgareddau

Wedi llu o weithgareddau i blant a phobl ifanc dros yr haf, digon o heulwen a llawer o hwyl, mae timau gweithgar Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn barod ar gyfer prysurdeb tymor yr hydref.

I'r rhai sy'n ymddiddori mewn hanes, byddwn yn rhedeg cyrsiau byrion ar Zoom, 3 wythnos o hyd, dros y misoedd nesaf ar nosweithiau Llun. Bydd y cwrs cyntaf, dan ofal yr hanesydd Frank Olding, yn canolbwyntio ar gestyll y de-ddwyrain gan ddechrau nos Lun, 27 Medi am 7.30yh. Bydd y Clwb Cerdd yn parhau hefyd, yn fisol y tro hwn, gan ddechrau 'nôl nos Fawrth, 21 Medi.

Yr Athro Angharad Davies, microbiolegydd clinigol academaidd o Brifysgol Abertawe, fydd ein gwestai yn Sgwrs y Mis, nos Iau, 16 Medi. Y pandemig fydd yn cymryd ei sylw wrth iddi ofyn, 'Ai ein ffordd ni o fyw sydd ar fai?'

Bydd llawer o'r hen ffefrynnau yn dychwelyd wrth gwrs – gwersi Sbaeneg; Y Gerddorfa Ukulele; Ukulele i Ddechreuwyr, Pilates a'r Clwb Garddio. Bydd Clwb Ffasiwn hefyd i bobl ifanc mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru. Dewch chi o hyd i'r holl fanylion ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol wrth i ni gadarnhau'r dyddiadau.



***Bwrlwm gweithgareddau'r haf***

Byddwn yn parhau â'n clybiau poblogaidd i blant a phobl ifainc gan gynnwys sesiynau dawns a drama, Sbaeneg, Ffrangeg a'r Clwb Karate ym Mhenarth. Bydd croeso cynnes i deuluoedd gyda babanod a phlant bach yn ein sesiynau Amser Stori - neu beth am ymuno â ni ar gyfer Bygi Heini yn y parc?

Am fwy o wybodaeth am ein holl sesiynau, ewch i: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru neu'r cyfryngau cymdeithasol. Neu cysylltwch: post@mentercaerdydd.cymru / 2068 9888.

## Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Erbyn hyn mae pob Cymdeithas, mae'n siŵr, wedi bod yn edrych ar ei rhaglen ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, hynny yw Hydref 2021 tan Awst 2022. Yn sgìl trafferthion y ddwy flynedd diwethaf oherwydd goblygiadau Cofid mae eu hanghenion wedi newid. Mae'n siŵr y bydd rhai yn newid eu harlwy neu fynd yn ôl i'r hen rigol ac mae hyn yn ddigon teg achos ymateb i ofynion eu haelodau yw eu rheswm i fod. Penderfynodd Pwyllgor Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys ddilyn y llwybr o newid ei harlwy. Gan fod y Gymdeithas yn ôl traddodiad yn cyfarfod ar nos Lun cyntaf pob mis penderfynwyd cadw at y drefn ond yn hytrach na chwrdd min nos cynnal ein cyfarfodydd o hyn allan yn y pnawn. Felly yn llyfrgell Dinas Powys ar bnawn Llun cyntaf y mis bydd ein cyfarfodydd gan amlaf. Mae ambell i eithriad, megis ein gwahoddiad "Dewch i Ganu Carolau yn Eglwys San Pedr" ar nos Lun, Rhagfyr y chweched. Hefyd, gan ein bod yn griw cymdeithasol, Cinio Canol Dydd yn y Seashore Grill, Y Sili, mis Hydref a "Dathlu Dewi" eto yn y Seashore Grill ar y seithfed o Fawrth.

Gan nad yw'r Gymdeithas yn codi tâl aelodaeth am eleni mi fydd mwy o bwyslais ar y cymdeithasu, er y gobaith yw y bydd ein haelodau eu hunain yn cyfrannu at yr adloniant yn ein cyfarfodydd. Y bwriad yw cynnal gwibdaith i orffen gweithgareddau'r flwyddyn ym Mis Mai.

Ein teimlad oedd bod rhaid mentro wedi toriad o ddwy flynedd i symud ein Cymdeithas ymlaen trwy geisio rhywbeth newydd. Bydd croeso mawr i unrhyw un sy am ddod ar draws afonydd Taf neu Elai i'n plith.

*Os am fwy o fanylion beth am gysylltu â fi Rhodri Jones (Cadeirydd) 02920-704965 neu Iris Cobbe (Ysgrifennydd) 02920-513413.*


### TIWTOR MATHEMATEG

**Tiwtor graddedig llwyddiannus iawn gyda dros 30 mlynedd o brofiad dysgu Mathemateg i fyfyrwyr o 11 oed hyd TGAU a Safon Uwch.**

Cynigir cyrsiau adfer arbennig i fyfyrwyr sydd wedi dioddef o ran eu cynnydd Mathemategol yn ystod y cyfnod clo. Defnyddir **Zoom** ar hyn o bryd ond cynhelir y gwersi yn **Penylan** fel arfer.

Manylion pellach:
Gwilym Wyn **07968 463 737**
neu serenagwill@btinternet.com

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



## Yr Athro E. Wyn James

## William Preece, Arbrofion Edison a Marconi, a Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru

(Rhan 1)

Cant a hanner o flynyddoedd yn ôl, ar 29 Tachwedd 1871, ganed merch a fyddai'n dod yn un o hoelion wyth Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif. Ruth Caine oedd ei henw. Fe'i ganed yn Lerpwl i deulu a oedd o dras Manawaidd ar y ddwy ochr, ond symudodd hi a'i theulu i Lundain yn 1880 wedi i'w thad gael ei ethol yn Aelod Seneddol Rhyddfrydol.

Priodi Aelod Seneddol Rhyddfrydol arall, sef John Herbert Lewis (1858–1933), yn 1897 a ddaeth â Ruth i Gymru, i gartref ei gŵr ym Mhenucha ger Caerwys yn sir y Fflint. Ond bu raid iddynt gynnal cartref yn Llundain hefyd oherwydd yr angen i Herbert Lewis dreulio cyfnodau sylweddol yn y ddinas yn rhinwedd ei swydd; ac fe ddaeth eu cartrefi yn sir y Fflint ac yn Llundain yn ganolfannau pwysig ar gyfer y bywyd diwylliannol a gwleidyddol Cymraeg a Chymreig.

Cafwyd adfywiad gwladgarol Cymreig arwyddocaol iawn tua diwedd y 19eg ganrif, symudiad a adwaenwn yn aml wrth yr enw 'Mudiad Cymru Fydd', a rhan o ffrwyth y deffroad hwnnw oedd creu sefydliadau cenedlaethol Cymreig megis Prifysgol Cymru a'n Hamgueddfa a'n Llyfrgell Genedlaethol. Ymhlith aelodau amlwg y mudiad roedd David Lloyd George, Tom Ellis ac O. M. Edwards, ac arweinydd blaenllaw arall, er nad yw ei enw mor gyfarwydd erbyn heddiw, oedd John Herbert Lewis.

Perthynai naws ramantaidd gref i'r deffroad gwladgarol hwnnw, ac arweiniodd hynny at gryn ddyrchafu a delfrydu ar y werin bobl fel ceidwaid popeth da ym mywyd a thraddodiadau'r genedl. Nid syndod, felly, yw gweld yn 1906 sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, yn rhan o ffrwyth yr adfywiad cenedlaetholgar a rhamantaidd hwnnw.

Daeth Ruth a John Herbert Lewis yn aelodau o'r Gymdeithas Alawon Gwerin yn 1908. Yna, yn 1910, dechreuodd Ruth ar y gwaith o gasglu caneuon gwerin, a bu wrthi'n ddiwyd yn casglu degau lawer ohonynt, yn enwedig yn sir y Fflint a chyffiniau Dyffryn Clwyd, o hynny hyd y Rhyfel Byd Cyntaf. Wedyn, o 1914 hyd at ei marwolaeth yn 1946, er iddi barhau i wneud rhywfaint o waith casglu, aeth ei hegnïon yn bennaf i gyfeiriad cynnal y Gymdeithas Alawon Gwerin fel un o'i phrif swyddogion; ac arwydd o gyfraniad mawr Ruth Herbert Lewis i fyd canu gwerin Cymraeg yw'r ffaith mai gwobr er cof amdani hi yw'r un flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer unawdwyr canu gwerin 21 oed a throsodd.

Sefydlwyd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru mewn cyfarfod o dan nawdd y Cymmrodorion adeg Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1906. Yr un a gadeiriodd y cyfarfod hwnnw, a'r un a etholwyd maes o law yn Llywydd cyntaf y Gymdeithas mewn cyfarfod yn Ionawr 1909, oedd Syr William Henry Preece (1834–1913). Ac nid dyna'r unig gyswllt agos rhwng y teulu â'r Gymdeithas Alawon Gwerin, oherwydd bu ei ferch, Amy Preece (1874–1961), yn gyd-Ysgrifennydd y Gymdeithas o 1909 hyd 1923 ac fe'i hetholwyd yn Llywydd yn 1959.

Ganed William Preece ym Mryn Helen, Caernarfon, yn fab i Richard Matthias Preece a'i wraig, Jane Hughes, ond symudodd y teulu i Lundain yn nechrau 1845. Yno, yn rhannol trwy ei gysylltiadau â'r gwyddonydd enwog, Michael Faraday, daeth William Preece i ymddiddori'n fawr mewn trydan, a'r canlyniad fu iddo ddilyn gyrfa fel peiriannydd trydanol.

Roedd Oes Victoria yn gyfnod o chwyldro mawr ym myd cyfathrebu, cyfnod a welodd gynnydd aruthrol yng nghyflymder a rhwyddineb anfon negeseuon a throsglwyddo gwybodaeth, a chwaraeodd William Preece ran amlwg yn y chwyldro hwnnw gan ddod yn ffigwr o bwys ym myd telegraffiaeth. Yn 1870 ymunodd â staff Swyddfa'r Post pan wladolwyd cwmnïau telegraff Prydain a daeth yn Brif Beiriannydd y corff hwnnw yn 1892.

Roedd William Preece yn adnabod y dyfeisydd enwog o America, Thomas Edison. Yn 1877 creodd Edison beiriant a allai recordio ac atgynhyrchu seiniau – y ffonograff – ac ymdengys iddo wneud hynny yn dilyn sgwrs â Preece. (Yn fuan wedyn, gyda llaw, aeth

***Phonograph Ruth Herbert Lewis (Paul Broadbent)***



pethau'n ddrwg rhyngddynt, wedi i Edison gyhuddo Preece o rannu gwybodaeth gyfrinachol am rai o'i ddarganfyddiadau â dyfeisydd y meicroffon carbon, y telynor medrus David Edward Hughes, a aned yng nghyffiniau'r Bala, o bosibl, yn 1831.)

Ym mis Tachwedd 1908, prynodd William Preece ffonograff 'Edison "Gem"' ar gyfer Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Dechreuodd un o arloeswyr y Gymdeithas, y gantores Mary Davies, ddefnyddio'r peiriant hwnnw i gasglu caneuon gwerin, ac ar un o'i hymweliadau â'i chyfaill, Ruth Herbert Lewis, fe ddaeth â'r ffonograff gyda hi.

Mary Davies oedd yn gyfrifol i raddau helaeth am ennyn diddordeb Ruth Herbert Lewis mewn caneuon gwerin. Er i Ruth Lewis fynd ati i ddysgu'r Gymraeg, ni ddaeth erioed yn gwbl rugl. Nid oedd ychwaith yn hyddysg mewn cerddoriaeth. O'r herwydd, er ei hawydd i fynd ati i gasglu caneuon gwerin Cymraeg, bu mewn tipyn o benbleth ynghylch sut i wneud hynny'n llwyddiannus. Gwelodd yn y ffonograff yr ateb i'w phroblem. Prynodd un at ei defnydd ei hun yn 1910 a dechrau ar y gwaith casglu, gan gael cymorth eraill i drawsysgrifio geiriau a cherddoriaeth y caneuon roedd hi wedi recordio pobl yn eu canu ar silindrau'r ffonograff.

Ond beth yw cysylltiad hyn oll â Bro Morgannwg? Fel mae'n digwydd, mae nifer o linynnau amrywiol, nid lleiaf y ffaith mai brodor o'r Bont-faen oedd tad William Preece; ac at hynny trown y tro nesaf.

(*I'w barhau*)

## Difyrion Digidol

Fis yma rydw i am sôn ychydig bach mwy am fy swydd fel ymgynghorydd cynhwysiad digidol. Os ydych yn cofio, mi wnes egluro ychydig am beth oedd cynhwysiad digidol yn yr erthygl gyntaf dros wyth mis yn ôl bellach. Ydi, mae'r amser wedi hedfan!

I'ch atgoffa, cynhwysiad digidol ydi sicrhau fod gan bawb o bob oed a phob cefndir y sgiliau angenrheidiol i allu defnyddio technoleg yn hyderus, boed yn ffôn clyfar, tabled neu liniadur. Dyna'r nod i ni fel rhaglen Cymunedau Digidol Cymru.

Ac ers mis Ebrill, rwyf bellach wedi cymryd rôl newydd o fewn rhaglen Cymunedau Digidol Cymru fel ymgynghorydd cynhwysiad digidol yn gweithio gyda mudiadau, elusennau a chymdeithasau sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg. Mae gan y swydd newydd sbon sgôp eang i fynd ati i gynorthwyo pobl a grwpiau i ymwreiddio hyder digidol o fewn mudiadau a chymdeithasau cymunedol ar hyd a lled Cymru.

Mae gan y Gymru Gymraeg draddodiad anrhydeddus o wirfoddoli, sy'n aml yn cael ei ddisgrifio fel 'helpu allan', y bobl hyn yw asgwrn cefn ein cymunedau ac mae llawer ohonynt yn aelodau o bwyllgorau cymdeithas hanes, eisteddfodau lleol, Merched y Wawr, yr Urdd ac yn fwy na thebyg yn weithgar yn eich papur bro chi. Dyma'r diwylliant sy'n cynnal ein diwylliant i bob pwrpas. Rhoddodd 2020 a rhan fawr o 2021 y stop ar lawer o'r gweithgarwch lleol a chenedlaethol ac fe symudodd popeth i fod yn rhithiol. Er bod y cyfyngiadau bellach wedi llacio, credaf ei bod dal yn hanfodol i fynd ati i rymuso ein cymunedau trwy dechnoleg.

Fe gynhaliwyd sesiwn yn ddiweddar ganddom yn trafod Ymateb cymunedau Cymraeg i'r oes ddigidol newydd. Yn y sesiwn cafwyd cyflwyniadau gan Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Merched y Wawr, Gwenllïi Evans, Cwmni Bro Ffestiniog a Sel Jones, Llety Arall, Caernarfon. Yr oeddynt i gyd yn siarad am y modd y maent wedi defnyddio technoleg er budd y Gymraeg. Un ffaith ddiddorol a arhosodd yn y cof oedd bod 1 miliwn o argraffiadau wedi'u cael eu gwneud gan Wasg Carreg Gwalch o gyfrol Coginio Curo'r Corona'n Coginio – mae hynny'n rhyfeddol. Dyma syniad a ddechreuodd ei daith anhygoel ar y cyfryngau cymdeithasol wrth i bawb rannu eu ryseitiau a lluniau o'u creadigaethau ac a ledodd fel tan gwyllt. Siaradodd Gwenllïi am y modd y maent wedi gweithio'n galed ym Mlaenau Ffestiniog i sefydlu sianel deledu BROcast ar y We 'gan y gymuned ar gyfer y gymuned'. Roedd Sel yn olrhain sefydlu menter gymdeithasol gyffrous "Llety Arall" sy'n cynnig gwyliau Cymraeg a Chymreig o fewn muriau hanesyddol tref Caernarfon. Codwyd yr arian i "Llety Arall" ar y We trwy dorfoli. Enghraifft wych o ddefnyddio technoleg er gwell.

Er bod y We yn gallu bod yn le digon digalon ar adegau, mae hefyd ar y llaw arall yn gallu ysbrydoli a gwefreiddio ac os ydych yn taro'r cywair iawn, mae'n gallu bod yn andros o lesol i'n cymunedau.

Wrth i ni wynebu'r dyfodol, mae'n holl bwysig i'n diwylliant barhau i fod yn fywiog a hyfyw yn y byd tu allan a gobeithio cyfarfod wyneb yn wyneb mewn neuaddau pentref yn fuan, ond mae'r un mor bwysig hefyd i ddal ati fel unigolion ac fel grwpiau o bobl i ddefnyddio technoleg. Yr ydym fel Rhaglen yn awyddus i weld gwirfoddolwyr digidol yn defnyddio'i hyder i helpu eraill yn ein cymunedau, teulu, cymdogion, preswylwyr mewn cartrefi henoed, swyddogion mewn eisteddfodau bach - mae'r rhestr yn ddi-ben-draw. Er enghraifft, y llynedd am y tro cyntaf erioed roedd dynes 107 yn gallu mynychu cyfarfod cangen o Ferched y Wawr a hynny trwy Zoom. Ni fyddai hynny wedi bod yn bosib cyn y pandemig. Felly, mae'n bwysig i'n mudiadau lleol a chenedlaethol a'n cymunedau barhau i gofleidio technoleg er lles y Gymraeg. Mae'r ffaith fod rhywun 107 oed wedi gallu ymuno mewn cyfarfod cangen o Ferched y Wawr yn profi fod technoleg yn gallu gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Os ydych chi'n awyddus i wirfoddoli gan helpu pobl i ddefnyddio ei gliniaduron, tabledi neu ffonau clyfar, cysylltwch gyda ni ar bob cyfrif. Nid oes raid bod yn arbenigwr mewn technoleg o gwbl, dim ond ryw ddealltwriaeth sylfaenol wrth ddefnyddio dyfeisiau digidol.

Cysylltwch gyda ni ac fe allwn eich rhoi mewn cysylltiad gyda sefydliadau gwirfoddoli ar hyd a lled Cymru. E-bostiwch Cymunedau.Digidol@wales.coop

*Deian ap Rhisiart*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS Y CRWYS

Gyda thristwch y cofnodir marwolaeth Mr Ifor Phillips. Bu'n aelod ffyddlon yng ngwasanaethau'r bore am flynyddoedd a gwelir ei eisiau yn fawr. Bu hefyd yn aelod gwerthfawr o'r Gymdeithas Ddrama. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Janet ac â'r meibion Thon a Gareth a'u teuluoedd. Meddyliwn amdanoch yn eich hiraeth.

Bu Alan Jobbins, priod ein haelod cymwynasgar Catherine, yn yr ysbyty am gyfnod. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo a phob dymuniad da i'r teulu.

Dymunwn yn dda i Bryan a Val James, y ddau yn cael anhwylderau ar eu llygaid. Adferiad buan iddynt.

Mae amryw o'n haelodau yn parhau i fod yn wael eu hiechyd ac yn gaeth i'w cartrefi. Dymunwn yn dda iddynt.

Llongyfarchiadau cynhesaf i holl ieuenctid yr Eglwys ar eu llwyddiant yn eu harholiadau yn dilyn blwyddyn hynod o heriol iddynt. Rydym yn falch iawn o bob un ohonoch. Dymunwn yn dda i'r rhai sy'n mynd i'r chweched dosbarth ac i'r prifysgolion. Bydd Catrin Mackie yn mynd i Goleg Wadham ym Mhrifysgol Rhydychen i astudio Ffrangeg a Rwsieg ac mae Catrin Roberts wedi derbyn ysgoloriaeth i astudio'r sacsoffon yng Ngholeg y Guildhall, Llundain. Pob dymuniad da iddynt.

Mae nifer hefyd wedi graddio eleni. Llongyfarchiadau i Sara Davies ar dderbyn gradd BEng o Brifysgol Loughborough; Rhian Melhuish wedi llwyddo yn ei chwrs TAR ym Mhrifysgol Met Caerdydd; Nia Phillips wedi derbyn gradd LLB o Brifysgol Lerpwl a Rhiannon Phillips wedi derbyn BA o Brifysgol Met Caerdydd.

Dwy chwaer a fu'n astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain yw Hannah Roberts sydd wedi derbyn BMus ac Elen Roberts sydd wedi derbyn MMus Llongyfarchiadau mawr.

Mae Cerian Angharad, Cadeirydd y Gymdeithas, wedi bod yn hynod brysur yn paratoi rhaglen ar gyfer y tymor nesaf. Bydd y cyfarfod cyntaf, fydd yn rhithiol, ar Fedi'r 15fed yng nghwmni'r Gogyddes, Nerys Howells. Diolch i Cerian am ei gwaith.

Dymunwn ddatgan ein gwerthfawrogiad a'n diolchgarwch mwyaf diffuant i'r Parchg Lona Roberts am ei chyfraniad enfawr i fywyd a gwaith Eglwys y Crwys am flynyddoedd lawer. Byddwn yn gweld ei heisiau wrth iddi hi a'r teulu ymuno â'r Eglwys yng Nghasnewydd lle mae Lona yn gweinidogaethu'n wirfoddol. Diolch Lona.

Bydd gwasanaethau'r Eglwys yn ôl i'r arfer o fis Medi ymlaen gyda'r oedfaon am 10.30 y bore a 6.00 yr hwyr. Bydd y Gweinidog yn gwasanaethu ar Fedi'r 5ed gydag Oedfa Gymun yn y bore; Yr Athro Ddr Eryl Wyn Davies ar Fedi'r 12fed; Y Gweinidog ar y 19eg a'r Parchg Glyn Tudwal Jones ar y 26ain. Mae'r croeso yn parhau yn Y Crwys.

## EGLWYS TEILO SANT

Bydd yr Offeren yn cael ei dathlu yn Gymraeg unwaith eto yn eglwys Teilo Sant ar Sul olaf y mis. Ryn ni'n edrych ymlaen yn fawr at gael ymgynnull yn rheolaidd eto ar ôl cyfnod mor hir. Mae offeiriad y plwyf, y Canon John Griffiths, yn edrych ymlaen at ein croesawu 'nôl a bydd y Tad Peter Davies yn dathlu'r Offeren fisol am 4.30 o'r gloch, gan gychwyn ar Fedi 26ain.

Mae'r Offeren wythnosol Zoom ar fore Sul wedi'n cynnal dros fisoedd y cyfnodau clo a bydd hon yn parhau ar Sul cyntaf y mis yn unig o hyn ymlaen. Diolch i'r Esgob Edwin a'r Tad Allan am eu ffyddlondeb i'r gynulleidfa rithiol – mae wedi bod yn hyfryd rhannu addoliad rheolaidd gyda'n ffrindiau o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Byddan nhw'n parhau i ddathlu'r Offeren fisol yn eu tro a bydd trydydd offeiriad, y Tad Gildas Parry, yn ymuno â nhw. Bydd yn braf cael cwrdd ag e hefyd dros y we.

Estynnwn ein llongyfarchiadau i Ioan ar ei lwyddiant yn ei arholiadau lefel A, a dymunwn bob hwyl a bendith iddo ym Mhrifysgol Abertawe. Ioan oedd ein gwas allor ffyddlon dros y ddeng mlynedd ddiwethaf – diolch iddo am ei gyfraniad cyson a thawel i'n haddoliad.

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Mike ar golli ei dad, Derek. Anfonwn ein gweddïau drostynt i gyd. Gorffwysed mewn hedd.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH

**Oedfaon Medi (10:30 a.m. yn y capel):**

5 – Oedfa Gymun - Delwyn Sion
12 – Parchedig Denzil John
19 – Rhys Powys
26 – Emlyn Davies

(Gobeithir agor yr Ysgol Sul yn ystod y mis.)

**Clychau**

"Dod a mymryn o'r haf i'r bobl eleni, dyna i gyd yr oeddem yn ceisio ei wneud"!

Geiriau perchennog fan gwerthu hufen iâ, Mohamed Lamarti, wedi iddo gael ei wahardd o Gilgant Ashfield yn Lowestoft am chwarae sain y clychau, sy'n dynodi ei bresenoldeb, am ormod o amser nag a ddylai! Mae'n debyg bod y clychau wedi canu am 20 eiliad yn hytrach na'r 12 eiliad ar y tro a ganiateir o dan God Ymarfer Adran Bwyd a Materion Gwledig (Defra) y Deyrnas Gyfunol.

Prin, yn ôl y gwelaf, ydi'r sôn am gloch a chlychau yn y Beibl, gyda chyfeiriad yn llyfr Exodus yn unig, at wisgoedd yr offeiriad yn cael eu haddurno â chlychau a phomgranadau. Ond fe gofiwch o ddyddiau plentyndod bod sôn yn y Beibl am hufen iâ (ond dim ond yn y fersiwn Saesneg ohono – y *Walls of Jericho* unrhyw un?) Martsio o gwmpas waliau'r ddinas oedd y gorchymyn i Josua, a hynny un waith y dydd am chwe diwrnod, a saith gwaith ar y seithfed dydd. Bryd hynny, wrth i'r offeiriad ganu'r cyrn hwrdd a'r milwyr weddi'n uchel, fe gwympodd y waliau. Petai Cod Ymarfer Defra yn bodoli pryd hynny, mae'n debyg y byddai'r waliau wedi eu harbed!

Os byth y bydd Mr Lamarti am ymweld â Gwaelod-y-garth a Chaerdydd gyda'i fan hufen iâ, gobeithio y bydd yn ogystal wedi talu sylw i weddill y Cod Ymarfer, sydd yn cynnwys gwaharddiad ar ganu'r clychau o fewn 50 metr i fannau addoli ar y Sul!

Gobeithio, hyd yn oed os na chawsoch hufen iâ, bod rhywun wedi cyrchu mymryn o'r haf i'ch cyfeiriad chwi eleni!

## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau i Marged Jones ar ei dyweddïad yn ddiweddar â Meilyr Hughes.

Yn yr un modd dymunwn yn dda i Mathew Preece a Bethan Phillips yn dilyn eu priodas ym Methel Rhiwbeina.

Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â nifer o'n haelodau: Shirley-Ann James yn dilyn marwolaeth ei gŵr Gareth yn dilyn brwydr hir yn erbyn canser, a Shan Pickard a gweddill ei theulu wrth iddynt golli eu chwaer Elizabeth. Yna, ddiwedd mis Awst, daeth y newyddion arteithiol am farwolaeth Steffan Idris, mab Bethan a Rhodri ab Owen. Fel eglwys, gweddïwn yn daer drostynt am gynhaliaeth a chysur y nef yn eu colled dybryd a'u galar dwfn.

Llongyfarchiadau i Becca Evans ar ennill ysgoloriaeth y Coleg Cenedlaethol wrth baratoi i ddechrau ei hastudiaethau ym Mhrifysgol Bangor.

Cafwyd ymateb ardderchog gan yr aelodau i'r cais am lyfrau Cymraeg ar gyfer Ysgol Gymraeg Hamadryad – braf oedd cael cyfle i gefnogi'r ysgol Gymraeg mwyaf newydd yn ein dinas.

Yn dilyn y cyfnod clo, hyfryd oedd cael gweld Ysgol Sul yr Oedolion yn ail-ddechrau. Llyfr olaf yr annwyl Hugh Matthews ar gymeriadau'r Hen Destament sy'n cael ei drafod. Mae'n cynnwys cwestiynau ynglyn â'r hyn sy'n sialens i ni yn ein bywydau bob dydd.

Dewis diweddaraf y Clwb Darllen oedd *Hostage* gan Clare Mackintosh. Er mai llyfr cyffro yw *Hostage*, codwyd sawl cwestiwn ynglyn â'r herïau a wynebir gan deuluoedd sydd â phlant ag anghenion arbennig.

Cynhaliwyd gwasanaethau yn y capel drwy gydol misoedd Gorffennaf ac Awst. Mawr yw'n diolch am gyfraniad y nifer fawr o aelodau a luniodd neu a gymerodd ran yn y gwasanaethau hyn.

## BETHEL, PENARTH

Ym mis Awst cafodd tri o'n 'pileri', Hazel, Moyra ac Alun, eu taro gan anhwylderau gwahanol ac annisgwyl, a fu'n achos iddynt dreulio amser mewn ysbyty. Wrth ysgrifennu'r nodiadau hyn da nodi bod y tri yn camu i'r cyfeiriad cywir yn ara' deg. Bydd gofyn ar y tri i fod yn amyneddgar tra bônt yn dal i dderbyn gofal arbenigwyr a theulu. Gweddiwn yn dyner drostynt a'u teuluoedd.

Ers blynyddoedd bu'n arfer ym Methel i beidio â chynnal oedfaon yn y capel yn ystod mis Awst, ond eleni bu'n wahanol. Gyda'n gweinidog yn mwynhau hoe haeddiannol, bu Sian Meinir a Neville yn arwain defosiwn trwy gyfrwng ZOOM ar dri Sul (8, 15, 22), gyda'r sesiynau yn agored i'r Ofalaeth gyfan ac eraill. Ar Sul y 29ain, cawsom oll gyfle i fanteisio ar drefniant hael Cristnogaeth21 yn lledaenu oedfa a rannwyd gyntaf y llynedd. Bu'r cyfleoedd gwahanol hyn nid yn unig yn foddion cyd-addoli ond hefyd yn brofiadau buddiol gyda chyfryngau newydd. Bydd cofio'r amrywiaeth yn fuddiol wrth inni ystyried pa batrymau newydd o addoli fydd yn nodweddu ein dyfodol.

Gorffennaf 18fed oedd dyddiad cynnal yr oedfa olaf yn y Tabernacl, Y Barri, gyda'r holl drafod ar werthu'r adeilad wedi dod i ben. Pregethodd ein gweinidog yn eneiniedig ar bwysigrwydd dal ati, gan nodi nad yr un peth yw 'capel' ac 'eglwys'. O hyn ymlaen am gyfnod amhenodol, bydd ein cyfeillion yn addoli yng Nghanolfan Sant Ffransis.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Darllen Effesiaid**

Dros yr haf cyhoeddodd Gwasg Bryntirion lyfr yn dwyn y teitl *Darllen Effesiaid* gan ein gweinidog Emyr James. Mae'r gyfrol hon yn rhannu llythr Effesiaid yn gyfres o astudiaethau byr sy'n cynnwys y testun ei hun ynghyd â sylwadau esboniadol hawdd eu deall a chwestiynau i'ch annog i feddwl ymhellach. Mae hwn yn llyfr gwych a deniadol i bawb o bob oedran.

**Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**

Yn dilyn toriad dros yr haf y bwriad yw ail gychwyn y sesiynau poblogaidd yma a arweinir gan Wyn James ar nos Iau, Hydref 7 am 8 o'r gloch. Gan fod rhai o bob rhan o Gymru a thu hwnt yn ymuno bydd y sesiynau yn parhau ar Zoom. Mae croeso mawr i ymuno â'r sesiynau drwy gysylltu â Wyn ar:
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Dros yr Haf**

Tra bod ein gweinidog Emyr yn cael seibiant 'roedd yn braf cael croesawu gweinidogion gwadd atom i bregethu. Cawsom gwmni Gwilym Tudur, Aberystwyth; Eseia Grandis, Llanelli; Owain James, Caerdydd a Roger Thomas, Caerfyrddin. Diolchwn iddynt am eu gweinidogaeth fendithiol.

**Cyfarfodydd**

Bellach 'rydym yn cwrdd ddwywaith ar y Sul, am 10 y bore a 5 y prynhawn, yng nghapel Tabernacl Yr Eglwys Newydd. Ar hyn o bryd cynhelir y cyfarfodydd eraill ar Zoom.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i'r rhai ifanc oedd yn sefyll arholiadau allanol eleni, a dymuniadau gorau i'r plant fydd yn dechrau nôl yn yr ysgol yn yr wythnosau nesaf.

## EBENESER

**Cymorth Cristnogol**

Cyfanswm terfynol ein cyfraniadau fel eglwys tuag at wythnos Cymorth Cristnogol yw £1,450. Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch am eich haelioni mawr.

**Gradd 8**

Llongyfarchiadau mawr i Gruffudd Jones ar ei lwyddiant yn ennill gradd 8 ar y cello mis Gorffennaf gydag anrhydedd.

**Suliau Awst**

Fel y llynedd penderfynwyd na fyddem yn cyd-gwrdd fel eglwysi oherwydd Covid-19. Cawsom un gwasanaeth y Sul dan ofal Gwilym Jeffs, Cynan Llwyd, Ifan a Catrin Roberts, Parchg Andrew Lenny ac Arfon Jones a'r teulu. Darlledwyd y gwasanaethau'n fyw hefyd ac mae nhw dal ar gael i'w gweld a gwrando arnynt ar youtube.com, SoundCloud neu ypod.cymru. Chwiliwch am Ebeneser Caerdydd. Diolch i rai arweiniodd y gwasanaethau am wasanaethau bendithiol.

**Priodas Aur**

Ar 14eg Awst dathlodd Arwel ac Eleri Williams eu Priodas Aur. Priodasant yng nghapel Kings Cross, Llundain ar 14eg Awst 1971, dydd penblwydd Eleri. Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt ar ddathlu'r achlysur arbennig hwn.

**Gwasanaethau Ebeneser**

O Sul cyntaf Medi byddwn yn mynd yn ôl i gynnal dwy oedfa, y bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd am 10:00 a'r capel Methodistaidd yn yr Eglwys Newydd am 3.00 yn y pnawn. Bydd gwasanaethau'r bore'n parhau i gael eu darlledu'n fyw ar FB Ebeneser ac yn ddiweddarach yn y dydd i'w gweld ar youtube. Bob yn ail Sul hefyd bydd oedfa Angor yn cael ei chynnal yn Grangetown yng nghaffi Lufkin am 4:30.

## EGLWYS DEWI SANT

**Bedydd**

Cafwyd y bedydd cyntaf yn yr eglwys ers y cyfnodau clo dydd Sul 25 Gorffennaf pan fedyddiwyd Eos ac Efa, gefeilliaid, merched Elin ac Eilian Hughes a chwiorydd i Eiri. Dymunwn bob bendith iddynt fel teulu.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Wyn ac Ann Mears ar ddod yn dad-cu a mam-gu (eto), merch fach i Ceri a Nick a chwaer i Steffan. Pob dymuniad da i'r fechan a'r teulu.

**Cydymdeimlwn**

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth Brynmor Jones. Bu Brynmor yn aelod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig am gyfnod ac yn archifydd yr eglwys. Byddwn yn gweld eisiau ei hiwmor arbennig, ei wybodaeth eang a'i ddawn o adrodd cadwyni o gerddi o'i gof. Cydymdeimlwn â Bethan, Gareth a'r teulu oll.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i'n pobl ifanc a dderbyniodd eu canlyniadau TGAU a Lefel A ym mis Awst. Dymunwn bob bendith i'r rhai a fydd yn dechrau cyrsiau yn y brifysgol ar ddiwedd y mis hwn.

**Coffi a Chlonc rhithiol**

Byddwn yn cynnal ein bore Coffi a Chlonc ar gyfer dysgwyr dros Zoom ar ddydd Sadwrn 18 Medi rhwng 10.30am a 12.00pm. Croeso cynnes i bawb. Os hoffech y manylion Zoom, anfonwch e-bost i gwybodaeth@eglwysdewisant.org.uk

**Gwasanaeth bore Mercher**

Ar ddiwedd mis Gorffennaf ailgychwynnwyd ein gwasanaeth bore Mercher am 10.30am. Ar ôl y gwasanaeth hwn ceir cyfle i gymdeithasu dros baned yn neuadd yr eglwys. Mae'n braf cael sgwrsio'n hamddenol wyneb yn wyneb eto.

**Gwasanaethau yn Ystod Mis Medi**

Parhawn â'n gwasanaethau digidol ar ffurf podlediadau ar y Sul, yn ogystal â'n gwasanaethau yn yr Eglwys. Nid ydym wedi dychwelwyd i'n harfer o gynnal tri gwasanaeth ar y Sul yn yr eglwys ac felly mae trefn y gwasanaethau ar gyfer mis Medi fel y canlyn:

**Sul 5 Medi**
10.30am Y Cymun Bendigaid

**Sul 12 Medi**
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Gwasanaeth Aml-oed
6.00am Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

**Sul 19 Medi**
10.30am Y Cymun Bendigaid

**Sul 26 Medi**
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Foreol Weddi a Phregeth

## Ysgol Bro Morgannwg

**Dathlu llwyddiannau yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg**

Mae disgyblion, rhieni, athrawon a Llywodraethwyr yn dathlu canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg eto eleni. Dengys y canlyniadau bod gwaith diddiwedd y staff a'r plant wedi parhau i fod o'r safon uchaf trwy'r cyfnod anodd yma, ac maent hefyd yn adlewyrchu'r berthynas wych sy'n bodoli rhyngddynt. Hoffai Mr Rhys Angell-Jones, Pennaeth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ddiolch i rieni a gofalwyr a chymuned ehangach yr ysgol am eu cefnogaeth er mwyn sicrhau bod dyhead ac uchelgais wedi parhau i gael eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau llwyddiant ar gyfer ein disgyblion. Mae'r ysgol yn edrych ymlaen at flwyddyn well fyth i ddod gydag adeiladau ac adnoddau newydd a'r gobaith y bydd llai o rwystrau i fywyd ysgol.

**Safon Uwch:**

Roedd llawer o ddathlu a diolch wrth i'r disgyblion droedio llwybrau newydd y tu hwnt i'r ysgol. Mae nifer yn mynd ymlaen i Brifysgolion, colegau,



*Rhai o'r criw lefel A*

prentisiaethau, a rhai yn dychwelyd i'r ysgol fel cynorthwywyr dysgu y flwyddyn nesaf. Pob dymuniad da i'n holl ddisgyblion i'r dyfodol a llongyfarchiadau – rydym mor falch ohonoch.


*Rhai o'r criw TGAU*

**TGAU**

Hoffai'r ysgol longyfarch ein holl ddisgyblion ac yn benodol, rhai sydd wedi llwyddo cyrraedd y lefelau uchaf. Cafodd 28 o ddisgyblion 10 A*/A neu'n fwy, gyda'r canlynol yn cael 10 A* neu'n fwy:
Gwennan Staziker, Megan Darwin, Poppy Tucker, Lilwen Evans, Ella Goggin, Nia Griffiths, Lleucu Wiliam, Mared Seeley, Catrin Lawton, Finnian Orders

Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion. Rydym mor falch ohonynt oll.

# Cwmni'r Dysgwyr

## *David Thomas – Dysgwr y Flwyddyn 2021*

## Gwilym Dafydd



*Llongyfarchiadau mawr David a diolch yn fawr am anfon gair i golofn Cwmni'r Dysgwyr. Dylwn i newid yr enw i Siaradwyr Cymraeg Newydd a dweud y gwir! Dyn ni eisoes wedi cael sgwrs fach trwy e-bost a Trydar a diolch am y negeseuon diddorol. Gobeithio cewch flwyddyn arbennig a chofiadwy fel Dysgwr y Flwyddyn ac efallai cawn ni air pellach o gyfeiriad Talog ger Caerfyrddin yn ystod y deuddeg mis nesaf.*

### Gair gan David Thomas



Un o Gaerdydd ydw i. Un o'r 'genhedlaeth goll'.

Magwyd fi yn y brifddinas yn ystod yr 70au ac 80au mewn teulu di-Gymraeg. Wythnos diwethaf fe ddes i nôl i'r brifddinas, i stiwdio newydd sbon y BBC, i gael fy enwi fel Dysgwr y Flwyddyn 2021. Anodd credu, dw i'n gwybod.

Rydw i'n ystyried fy hun fel Cymro i'r carn, ond beth am yr iaith Gymraeg? Yn ystod fy mhlentyndod, roedd yr iaith yn rhywbeth ar wahân, rhywbeth dirgel, rhywbeth i bobl eraill mewn llefydd eraill.

*"Oh yeah, we're Welsh and proud of it, but we don't speak it. Wish we did..."*

Wrth gwrs, ar y pryd cafodd yr iaith ei siarad yng Nghaerdydd a gan bobl 'posh' ar y teledu, ond nid yn fy nghornel o'r ddinas. Bron dim gair o Gymraeg yn yr ysgol chwaith.

Erbyn hyn mae popeth wedi newid, diolch byth, i fi ac i'r ddinas hefyd. Mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ledled y brifddinas, mae'r ysgolion Cymraeg yn llawn dop, ac mae'n hollol gyffredin a normal cael fy ngwasanaethu yn y Gymraeg mewn siopau a bwytai Caerdydd. Normal i'r ddinas, a normal i fi.

Yn bersonol, mae dysgu'r iaith wedi cyfoethogi fy mywyd mewn cymaint o ffyrdd. Mae'r iaith hefyd wedi bod yn rhywfath o docyn mynediad i'r holl ddiwylliant cyfoethog Cymreig sydd wastad wedi bodoli o'm cwmpas i. Fy etifeddiaeth, fe allech chi ddweud.

Dw i'n cofio mynd i Eisteddfod Cwm Rhymni yn 1990, ac yn rhyfeddu ar y holl beth. Rhyw ddiwrnod, fe wnâi ddysgu'r iaith. Rhyw ddiwrnod...

Dw i'n byw yn ardal Caerfyrddin bellach ond mae fy ngwreiddiau a chysylltiadau gyda'r brifddinas yn ddwfn iawn. Pob tro dw i'n dod nôl i Gaerdydd dw i'n gweld y lle yn fwy hyderus nac erioed, gyda'r iaith Gymraeg fel rhan sylfaenol o fywyd dyddiol. Dw i wedi gwneud yr un daith.

Mae'r cylch wedi troi.

### Clonc yn y Castell

Erbyn hyn mae rhai ohonoch wedi mynd yn ôl i weithio yn y swyddfa yn achlysurol a diwrnodau eraill o hyd yn gweithio yn eich cartrefi.

Dyna pam dechreuon ni gynnal clonc yn y Castell, yn yr awyr agored pan nad yw hi yn bwrw glaw, a hynny ar ddydd Iau amser cinio rhwng un a dau o'r gloch.

Ganwyd Clonc yn y Castell ar ddydd Iau, 9 Gorffennaf, ac yno roedd Cathy, Deiniol, Eirian a fi. Ers hynny mae Sean, Rowland a Mary wedi ymuno gyda ni. Croeso cynnes i bawb ymuno yn y clonc newydd. Mae'n debygol y byddwn yn dal ati o leiaf tan ddechrau mis Hydref.

I feddwl ein bod wedi mynychu clonc bellach ar Zoom ers deunaw mis. Ond mae'n braf cael sgwrsio yn yr awyr agored hefyd.

Mae'r Awr Hapus, Gwesty Pentref, cyn dyddiau Covid-19, wedi cyfarfod sawl gwaith ar foreau Llun yn y parc ger llyfrgell yr Eglwys Newydd, 10.30, ers diwedd mis Mai. Weithiau ar Zoom neu yn y parc – mae'n dibynnu ar ragolygon y tywydd!

### Clwb Gwylio Adar

Dyn ni heb gyfarfod ers bore Sadwrn, 7 Mawrth llynedd pan ddaeth dwsin ynghyd yn y Bae a Daniel Jenkins-Jones yn arwain. Os ydych yn fy nilyn ar Trydar, @GwilymDafydd yna gwyddoch o bosib am ein bwriad i ailgychwyn ar fore Sadwrn, 4 Medi, 10.30-12 yn ardal Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd. Bydd adroddiad bach yn rhifyn Hydref os byddwn wedi mynd am dro ar y dyddiad nodais uchod. Croeso i bawb ac yn arbennig siaradwyr Cymraeg newydd.

# Y DIGWYDDIADUR

## MEDI

**Mercher, 8 Medi**
Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs gan y cyfansoddwr a'r cerddor Robat Arwyn am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso arbennig i aelodau newydd. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545) neu Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029 -2061-5243).

**Llun–Mercher, 20–22 Medi**
'Ailddehongli'r Wladfa Gymreig.' Symposiwm amlddisgyblaethol tairieithog dan nawdd Canolfan Uwchefrydiau Cymry America, Prifysgol Caerdydd ac Adran Ieithyddiaeth a Llenyddiaeth Prifysgol Bremen. Trwy gyfrwng Zoom. Am fanylion pellach, cysylltwch â Dr Iwan Wyn Rees (ReesIW2@caerdydd.ac.uk).

**Gwener, 24 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dyfan Lewis, enillydd Coron Eisteddfod AmGen 2021, ar y testun 'Trywydd Arall: Pamffleta a'r Goron'. Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. **Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach**, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## HYDREF

**Sadwrn, 2 Hydref**
Mae'r Clwb Gwylio Adar yn cyfarfod ar fore Sadwrn cyntaf bob mis. Am fanylion ynghylch amser a lleoliad, cysylltwch â Gwilym Dafydd (eirianagwilym@gmail.com; trydar @GwilymDafydd). Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 6 Hydref**
Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs gan y bardd a'r nofelydd Casia Wiliam, enillydd un o wobrau Tir na n-Og 2021, am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545) neu Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029 -2061-5243).

**Iau, 7 Hydref**
Dechrau tymor newydd o sesiynau trafod cerddi ac emynau Cristnogol dan arweiniad yr Athro E. Wyn James am 8.00pm bob nos Iau trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. I dderbyn manylion pellach, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Iau, 14 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Siaradwr gwadd: Aled Roberts (Comisiynydd y Gymraeg). Croeso cynnes i bawb. I archebu lle, cysylltwch â'r Cadeirydd, Rowenna Thomas (rowenna@gmail.com/ 029-2049-3666), erbyn 7 Hydref.

**Gwener, 15 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Rhiannon Marks, a fydd yn mynd ar drywydd y stori fer Gymraeg. Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. **Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach**, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Gwener, 22 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. 'Pam a Sut y Dihangodd yr Ysbïwr?' Cyflwyniad gan y Llywydd newydd, Bill Davies, am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).**

# Awê Cymry!

Nid Gareth Bale a Ben Cabango oedd yr unig ddinasyddion i chwarae dros Gymru yn yr Ewros. Wrth i'n tîm cenedlaethol gyrraedd rowndiau'r 16 olaf, bu tri thad a thri mab o Gaerdydd hefyd yn cynrychioli eu gwlad drwy chwarae i dîm y cefnogwyr. Mae'r Wal Goch yn trefnu gemau cyfeillgar yn erbyn ffans lleol bob tro mae Cymru'n chwarae. Y diwrnod ar ôl gêm agoriadol Cymru yn erbyn y Swisdir, fe gafodd cefnogwyr Cymru groeso arbennig gan y tîm lleol Bailov Rovers FC ym mhrifddinas Azerbaijan, Baku.

Roedd y brodyr Rhys a Gwilym Boore o'r Eglwys Newydd yn chwarae ochor yn ochor gyda'u meibion Tomos a Gethin, tra bod Tim Hartley o Landaf yn chwarae gyda'i fab Rhys. Er i Bale, Ramsey a'r criw gael gêm gyfartal yn erbyn y Swisdir ac yna curo Twrci, roedd y gwres (a'r cwrw lleol, rhaid dweud) yn drech na thîm y cefnogwyr. Colli fu'r hanes o saith gôl i un ond fe gododd y chwaraewyr dros £100 at elusen leol sy'n darparu gofal deintyddol i blant angehenus Baku.

Dywedodd Tim Hartley, "Mae'r gemau cyfeillgar ynghyd â gwaith elusen y cefnogwyr Gôl Cymru wedi dod yn rhan annatod o deithiau oddi cartref Cymru. Mae'n bleser cael cwrdd â phobl leol a chwarae yn eu herbyn nhw. Ry'n ni wastad yn cael croeso arbennig a thrwy waith Gôl ni'n gobeithio ein bod ni'n gadael ychydig o ewyllys da ar ein holau."

*Tim Hartley*

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd* ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Pobol y Rhigwm

Croeso i gornel y rhigymwyr unwaith eto. Fe gofiwch mai'r dasg y tro diwethaf (tasg 45) oedd cerdd ar unrhyw fesur ar y testun 'Ffarwél'. Daeth cannoedd o gynigion i law; fodd bynnag, dim ond lle i gyhoeddi'r enillydd sydd y tro hwn. Diolch i *Llygad-dyst* am gyflwyno englyn:

**Ffarwél**

Gwytnwch y llwch sy'n llechu dan adain
  un wada mai naddu
'sgyfaint main fel rhain yw rhu
sŵn dy nos yn dynesu.

*Llygad-dyst*

O ran crefft, mae hwn yn englyn cryf iawn ac yn gywir ei gynghanedd. Bydd selogion yr ysgol farddol yn clywed y groes o gyswllt yn y llinell glo (a rhwng y cyrch a'r ail linell), sy'n arwydd fod crefftwr ar waith. Mae'r cyfeiriadau at y 'llwch' a'r ''sgyfaint' yn awgrymu mai glöwr neu chwarelwr sydd yma, a llwch y gwaith wedi dwyn ei anadl a'i fywyd. Dewisodd eiriau'n ofalus – nid naddu'r ffas a wnaed, ond naddu'r ysgyfaint; sŵn yr anadlu trwm yw'r 'rhu' mae'n debyg, sy'n arwydd fod y diwedd ar ddod. Cymeraf mai'r claf ei hun yw'r 'un wada' ei fod yn sâl (h.y. un sy'n gwadu) ac os felly, efallai fod cyfarch y claf yn y llinell olaf (h.y. 'dy nos') ychydig yn anghyson. Ta waeth am hynny, mae hwn yn englyn campus, a diolch i Llygad-dyst am ei waith.

**Enillydd tasg rhif 45 yw**
**Emlyn Williams, Trelluest**

Y dasg erbyn y tro nesaf (tasg 46) fydd limrig yn cynnwys y llinell

'Rwy'n hedfan i ___ y mis nesa'.

Cewch roi unrhyw gyrchfan yn y bwlch.

Anfonwch eich cynigion at **eirianagwilym@gmail.com** erbyn **20 Medi**, 2021.

*Emyr Davies*

---

*Annwyl Ffrindiau,*

**LLAWENHAWN, LLAWENHAWN**.

CROESO ar ôl deunaw mis hollol anarferol.

Gobeithiwn y gallwch ymuno gyda ni eto eleni inni fwynhau cymdeithasu.

Bydd y Cylch Cinio yn cyfarfod yng Nghlwb Golff Radur ar nos Iau Hydref 14eg. Byddwn yn ymgynnull am 7 o'r gloch ac fe weinir y cinio am 7.30. Cost y noson fydd £25 (pris y bwyd wedi codi) sy'n cynnwys pryd dau gwrs gyda choffi / te i ddilyn.

Mr Aled Roberts, Comisiynydd Y Gymraeg, fydd y siaradwr gwadd y tro hwn.

Mae croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni. Os nad ydych wedi bod o'r blaen, tybed a fyddech cystal â gadael i mi wybod os ydych am ymuno gyda ni a hynny erbyn dydd Iau Hydref 7fed. Fe fydd y rhai sydd eisoes yn aelodau yn derbyn nodyn gan eu person cyswllt.

Gallwch gysylltu â mi drwy e-bost rowenna@gmail.com neu fy ffonio ar 02920 493666.

Ni ellir derbyn enwau ar ôl y dyddiad hwn.

Bydd y tâl llawn o £25 yn daladwy ar y noson.

Gofynnir i bawb sy'n dod i'r cinio dalu gyda siec (taladwy i Cylch Cinio Merched Caerdydd) neu arian parod a'i roi mewn amlen gyda'ch enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost arni.

Os ydych yn llysieuwraig neu'n dioddef o alergedd, cofiwch adael i ni wybod hynny pan fyddwch yn cysylltu â ni.

Gan obeithio y cawn eich cwmni ar y noson.

Cofion,
*Rowenna Thomas (cadeirydd)*
*Bethan Whittall*

---

*Annwyl Ddarllenwyr,*

Hoffwn dynnu eich sylw i Gylchgrawn Newydd Cyw. Cyw a'i ffrindiau yw sêr y cylchgrawn lliwgar hwn, ac ynddo ceir 48 tudalen yn llawn dop o weithgareddau hwyliog (ac addysgol) ar gyfer plant ifanc hyd at 6 oed.


Mae cyfle i ddysgu am lythrennau a rhifau wrth chwarae, chwerthin a dysgu. Mae storïau, syniadau am weithgareddau creadigol, cyfle i goginio (gyda help oedolyn wrth gwrs!) a llond lle o sticeri.

Law yn llaw â'r cylchgrawn, mae gwefan arbennig sy'n cynnig cyfieithiad o'r holl gynnwys – yn rhoi cyfle i'r di-Gymraeg glywed storïau yn cael eu darllen yn y Gymraeg.


Bydd rhifyn yr Hydref ar werth o 10 Medi ymlaen. Pris y cylchgrawn yw £3.99 ac mae'n ymddangos yn dymhorol. Gellir tanysgrifio i dderbyn rhifyn bob tymor am flwyddyn am £15 (post am ddim) yn syth i'r cartref, sydd hefyd yn ei wneud yn anrheg ddelfrydol i blentyn bach!


Gellir prynu copi o wefan Peniarth, http://pth.cymru/siop-cyw-cylcgrawn neu o'ch siop lyfrau lleol. Mae modd trefnu tanysgrifiad ar y wefan honno hefyd.

Hwyl ar y darllen!



## Rhif: 216



### Ar Draws

1. '----- ----- ----- ----- o Frynaman
   A mynd heibio'r grug a'r mawn' (IR) (4,1,5,2)
7. Epil, efallai mewn gardd yn Lloegr (5)
8. Tegwen yn dal y rhwyd (3)
9. Parhau i gynnal (3)
10. Y brys gwyllt i gyrraedd doli a'i symbylu (9)
11. Y gŵr ola' yn gwneud archwiliad (6)
12. Teithio i adfeilion Tŷ Mawr (6)
15. Gafr newydd, un emrallt (9)
17. 'Iesu Grist, yr un ydyw ----- a heddiw ac am byth' (Hebreaid) (3)
18. Yr Arglwydd a'i galon o dynerwch (3)
19. Lloches mewn actio ar yn ail cyn ddechrau loncian (5)
21. Yn darlunio y diflas i'r diog (12)

20 Llef ar ddechrau cân reit iasol (3)

### I Lawr

1. '----- ----- ----- ----- yn agos
   F'wyllys i yw mynd ym mhell' (WW) (1'3,2,1'1,4)
2. Ar ôl hynny, mewn llecyn anial (3)
3. A oes lle i'r ceffyl yn dy blasty? (6)
4. 'Pan fo pawb yn cefnu arnom
   ----- ----- ----- tywyll du' (EE) (2,1,6)
5. Cythruddo gan fod Dai'n gwingo ar yn ail (5)
6. 'Mi droais i 'mochel i ----- ----- -----,
   'Roedd tân ar yr aelwyd, a phawb o dan do'(EW) (5,1,6)
7. Crafu tatws efallai i Poli ferwi (5)
10. Yr aderyn a'r blodyn mynydd yn y lle hwn (2,7)
13. 'Hyblyg' ebe Alun (5)
14. Mae ci Aled yn cael amser anodd (6)
16. Cymro yn colli'i ben cyn i un ildio (5)

**Enillydd Croesair Rhif 214**
**Huana Simpson, Llansanwyr**

**Atebion Croesair Rhif 214**
**Ar Draws** 1. Cipio 4. Esbonio 8. Oedfaon 9. Godre 10. Salw 11. Cofiadwy 13. Bron 14. Diog 16. I ddadebru 17. Adwy 20. Irder 21. Bodloni 22. Gwelyau 23. Digon
**I Lawr** 1. Croesyceiliog 2. Pedol 3. Olaf 4. Egniol 5. Bugeilio 6. Nodedig 7. O wenyn gwynion 12. Bore ar dy 13. Brawdle 15. Treblu 18. Diosg 19. Odid

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Hydref 2021
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Côr Hen Nodiant

Er gwaetha'r pandemig a'r cyfnod clo pan nad oedd yn bosib i aelodau'r Côr gwrdd a chynnal ymarferion, roedd modd i ni gadw mewn cysylltiad drwy e-bost a grŵp *Whatsapp* a sefydlwyd yn arbennig. Cysylltu o bell, twtsh heb gwtsh, codi ysbryd yn electronig, gan roi cyfle i ni gael ein difyrru gan fideos a lluniau dwys a doniol, i gyd-ddathlu penblwyddi a phenblwyddi priodas (amryw ohonyn nhw'n rhai aur) ac i roi gwybod am aelodau neu deulu aelodau a oedd wedi profi salwch neu brofedigaeth ac i gydymdeimlo â nhw. Bu rhai o'r aelodau hefyd yn cymryd rhan yn ddigidol yn Eisteddfod AmGen 2020 drwy berfformio 'Dros Bont y Glaw' a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer corau ledled Cymru. Yn ogystal, lluniwyd baner drawiadol gan ddwy o'n haelodau, Jan Erskine a Marion Evans, a phrynodd nifer ohonom fygydau du a oedd yn dwyn enw'r côr.

**Te parti** Ddechrau Gorffennaf eleni, trefnwyd dau de parti hwyliog a llwyddiannus yng ngardd y Cadeirydd, Arwel Elis Owen ac roedd mwyafrif llethol o'r aelodau yn awyddus i ailgydio yn yr ymarferion wrth i'r cyfyngiadau Covid lacio a chynnig mwy o opsiynau i ni ailgyfarfod.

**Miwsig ar y maes** Felly, o fis Medi ymlaen, bydd yr ymarferion yn ailddechrau ond mewn lleoliad newydd. Y bwriad yw eu cynnal yn un o eisteddleoedd Stadiwm y Principality bob nos Fercher am awr. Byddwn dan do ac yn cadw at reoliadau Covid Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau diogelwch pob aelod. Y nod yw ymarfer y darnau i'w perfformio, gobeithio, yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron yn 2022 a chymdeithasu, wrth reswm!

**Recriwtio** Mae'r Côr yn awyddus i recriwtio aelodau newydd ar gyfer pob llais, ond yn enwedig y tenoriaid. Os ydych dros 60 oed ac yn mwynhau canu mewn côr, anfonwch gais drwy e-bost at y pwyllgor at corhennodiant@gmail.com

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Tan eleni, roedd dim ond modd defnyddio colledion hunan gyflogedig yn erbyn incwm arall yn yr un flwyddyn dreth â'r colledion neu'r flwyddyn dreth flaenorol. Yn sgîl y pandemig, mae'n bosib bellach i gario colledion hunan gyflogedig o flynyddoedd treth 2020-2021 a 2021-2022 a'u defnyddio yn erbyn elw o'r 3 blynedd dreth ddiwethaf. Mae hyn yn newyddion calonogol i'r rheini sydd wedi gwneud colled ers y pandemig.
2. Cyhoeddodd Banc Tesco yn ddiweddar y byddant yn cau pob cyfrif cyfredol erbyn 30 Tachwedd 2021. Sicrhewch eich bod yn ymchwilio i ba fanc sydd â'r cynigion gorau ar eu cyfrifon cyfredol pan fyddwch chi'n newid banc ac eich bod yn gwirio ei fod yn fanc sefydledig a rheoledig.
3. Os ydych yn prynu tŷ a adeiladwyd yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, gwiriwch yn ofalus iawn os yw'r tŷ ar brydles ('*leasehold*') ac os felly, archwiliwch y taliadau gwasanaeth blynyddol / rhent daear parhaus oherwydd gall y rhain fod yn ddrud iawn.

   Mae adroddiadau papur newydd diweddar yn nodi bod rhai prynwyr wedi dwyn achos cyfreithiol yn erbyn eu cyfreithwyr (a argymhellir yn aml gan yr adeiladwyr tai) am beidio ag egluro'r taliadau dan sylw yn llawn wrth brynu'r tŷ.

**Cwestiynau Huw ac Aled:** *Fel ysgutor ystâd fy ewythr, rwyf ar fin talu bil treth etifeddiaeth ar ystâd sy'n cynnwys portffolio arian digidol ('cryptocurrency'). Mae gwerth y portffolio wedi gostwng yn sylweddol ers iddo farw. A gaf i hawlio i ostwng y bil treth o ganlyniad i'r gostyngiad yng ngwerth y portffolio?*

Pan gwblhawyd y ffurflenni treth etifeddiaeth, byddai prisiad swyddogol wedi ei gael o'r portffolio arian digidol a byddai'r bil treth yn seiliedig ar y prisiad hwn.

Mae rhyddhad treth etifeddiaeth ar gael i ysgutorion lle mae asedau wedi cwympo mewn gwerth rhwng dyddiad y farwolaeth a phan werthir yr ased. Mae'r rhyddhad hwn yn berthnasol i werthu tir a chyfranddaliadau a ddyfynnir (yn ddibynnol ar amodau penodol). O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, nid yw'r rhyddhad yn berthnasol i arian digidol.

Mewn amgylchiadau prin, gallai hyn arwain at fil treth etifeddiaeth sy'n uwch na gwerth y portffolio arian digidol.


Os ydych chi'n poeni am effaith treth etifeddiaeth ar bortffolio arian digidol, cysylltwch â ni.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch â ni drwy: www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

## Ar Drywydd Enwau Lleol

Mae'r Lolfa a Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn falch iawn o allu cyhoeddi bod *Ar Drywydd Enwau Lleoedd*, ein cyfrol i anrhydeddu'r Athro Gwynedd O. Pierce ar ei ben blwydd yn gant oed, bellach wedi ei chyhoeddi, ac ar gael mewn siopau llyfrau.

Mae'r gyfrol hon yn gasgliad o 20 erthygl safonol ar enwau lleoedd gan arbenigwyr o Gymru a thu hwnt, wedi eu crynhoi gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru i ddathlu pen blwydd yr Athro Gwynedd O. Pierce yn 100 oed yn 2021: 13 erthygl Gymraeg a 7 yn Saesneg. Gwnaeth yr Athro Pierce fwy na neb i sicrhau fod gwyddor astudio enwau lleoedd yng Nghymru wedi ei gosod ar seiliau cwbl gadarn.



Yn y gyfrol dysgwn am enwau strydoedd Aberaeron a Chaerdydd, am enwau ardal Caernarfon – tref enedigol yr Athro Pierce – gan gynnwys enwau lleiniau pysgota a throbyllau yn y Fenai; ceir erthyglau am enwau lleoedd ar draws Cymru a'r Gororau; am enwau mewn hen destunau canoloesol; am hanes yr ymgyrch i safoni enwau lleoedd Cymru, gan esbonio rhan allweddol yr Athro Pierce yn y gwaith hwnnw; ac am waith Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn hybu prosiectau cymunedol i gofnodi a gwarchod ein henwau. Ceir hefyd erthyglau gan arbenigwyr o Iwerddon, yr Alban a Chernyw – gan drafod, er enghraifft, y cyswllt rhwng Penarth ym Morgannwg a'r 11 Penarth a geir yng Nghernyw.

Cyfranwyr Gareth A. Bevan, Glenda Carr, Dylan Foster Evans, G. Angharad Fychan, Richard E. Huws, Eleri Hedd James, Heather James, Peter McClure, Prys Morgan, Richard Morgan, Aengus Ó Fionnagáin, Hywel Wyn Owen, Oliver Padel, Rhian Parry, Ann Parry Owen, David N. Parsons, Simon Taylor, Dafydd Whiteside Thomas, David Thorne, Dei Tomos ac Ifor Dylan Williams.

# Gwirfoddolwyr Childline

Mae gwirfoddolwyr Childline yn cwnsela plant a phobl ifanc bob dydd o'r flwyddyn am unrhyw beth a allai fod yn eu poeni, o bryderon iechyd meddwl a straen arholiadau, i berthnasoedd teuluol a cham-drin. Gall plant a phobl ifanc sydd eisiau siarad â chwnselydd Childline sy'n siarad Cymraeg, gysylltu â'r gwasanaeth dros y ffôn neu ar-lein a gwneud y cais hwnnw.

Yn gynharach eleni cofrestrodd Rhun Dafydd, sy'n 29 ac yn byw yn Rhuthun a Huw Meredith, sy'n 60 ac sydd wedi byw'r rhan fwyaf o'i fywyd yn Llundain, i wirfoddoli gyda Childline. Mae'r ddau yn cwnsela plant yn y Gymraeg.


*Huw Meredith*

Ymunodd Huw â'r gwasanaeth ar ôl ymddeol y llynedd a dyma a ddywed, "Rhaid i wirfoddolwyr fod yn barod ar gyfer cysylltiadau gan blant sy'n delio â sefyllfaoedd heriol iawn – yn aml mae hyn yn cael ei wneud yn llawer gwaeth gan nad oes ganddyn nhw neb i siarad â nhw am y cyfan. Felly, hyd yn oed os ydych chi ar ben y lein, yn clywed ac yn gwrando ar beth maen nhw'n ei ddweud, gallwch deimlo eich bod wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Ac rydych chi'n cael eich cefnogi a'ch goruchwylio'n dda ar shifft i'ch helpu chi gyda sgyrsiau anodd neu pan fydd y plentyn mewn perygl."

Mae Rhun yn cadarnhau hyn, "Bob wythnos, mae pobl ifanc wedi dweud wrthyf am y gwahaniaeth mae Childline yn ei wneud. Maen nhw wedi dweud pa mor bwysig yw hi iddyn nhw gael rhywun i siarad â nhw, sy'n gwrando ac yn poeni amdanyn nhw".

Ychwanegodd Huw: "I blant sy'n cysylltu â Childline, mae'n aml yn gofyn am lawer o ddewrder a chadernid i gysylltu â Childline yn y lle cyntaf, ac yn aml iawn mae plant yn cael trafferth dod o hyd i'r geiriau i fynegi sut maen nhw'n teimlo.

"Felly, dychmygwch faint yn anoddach yw hynny os nad ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n gallu defnyddio eich iaith gyntaf, neu os byddwch chi'n cael cwnselydd sydd ddim yn eich deall chi. Mae Childline yn wasanaeth cenedlaethol felly mae angen i gwnselwyr a goruchwylwyr ledled y DU fod yn ymwybodol, ac yn ddigon hyderus i sicrhau bod y plentyn yn cysylltu â chwnselydd Cymraeg – ond mae angen mwy o'r rheini arnom ni er mwyn i ni allu ymateb bob tro!"


Sonia Rhun hefyd am y gwahaniaeth y mae gwirfoddoli wedi'i wneud yn ei fywyd ef. "Am flynyddoedd roeddwn i'n teimlo fel bod rhywbeth ar goll yn fy mywyd, ac rydw i wedi dod o hyd iddo wrth ddod yn wirfoddolwr Childline. Un peth nad oeddwn i erioed wedi'i ddisgwyl oedd y byddai fy rôl yn Childline mor bwysig i mi'n bersonol.

"Mae rhai teimladau mewn bywyd sy'n rhy fawr ac arbennig i'w rhoi mewn geiriau, ac mae helpu plant a phobl ifanc yn un o'r rheini. Byddwn yn argymell rôl yn Childline i unrhyw un sydd eisiau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd rhywun arall, neu hyd yn oed eu bywyd eu hunain."

Mae'r canolfannau yng Nghaerdydd a Phrestatyn angen oedolion, yn enwedig siaradwyr Cymraeg, sy'n fodlon gwirfoddoli am leiafswm o 4.25 awr yr wythnos i'w helpu i fod yno i blant a phobl ifanc yn eu cyfnodau o angen.

I gael rhagor o wybodaeth a'r pecyn hyfforddi cynhwysfawr, cysylltwch â volunteerrecruitment@nspcc.org.uk ar gyfer canolfan Caerdydd.

Mae Childline ar gael i bobl ifanc 24/7 ar 0800 1111 neu www.childline.org.uk.


*Rhun Dafydd*

# Bwyd Merch y Ddinas

*Chwa o Awyr Iach*



## Lowri Haf Cooke

Dwi'n sgwennu'r llith hwn wedi gwledd o gerddoriaeth byw yng Ngŵyl y Dyn Gwyrdd, Crug Hywel; penwythnos gwefreiddiol o seiniau a blasau gwahanol, a chae yn llawn miloedd o bobol. Wedi'r deunaw mis diwethaf, roedd yn swreal a dweud y lleiaf i gael mwynhau yn yr awyr iach gyda chymaint o bobol eraill. Ymysg yr uchafbwyntiau oedd set Gruff Rhys, a chyri o Goa – a choctel sbeislyd sudd tomato o 'Bar Mari Waedlyd'! Cadarnhawyd amserlen gŵyl Sŵn yng Nghaerdydd ym mis Hydref – pwy â ŵyr be ddaw nesa, ond dwi'n mawr obeithio y gwelai chi yna.

'Profiad' fu'r penwythnos, a hwnnw'n brofiad 'gwahanol' – ac mae unrhywbeth 'gwahanol' ar hyn o bryd yn hynod llesol. Dyna'r agwedd sydd wedi fy helpu i fwynhau misoedd yr haf eleni; 'buddsoddi' nid dim ond 'gwario', a hynny ar 'ddigwyddiad' yn lle 'dihangiad'. Wedi'r cyfan, does dim 'dianc' rhag Covid. Er mwyn cael mynediad i'r maes, bu'n rhaid dangos tystiolaeth o dderbyn dau frechlyn, neu brawf negatif diweddar am y clefyd. Cynigiodd hynny heddwch meddwl er mwyn mwynhau ac ymlacio – fel mae gwisgo masgiau a chadw pellter mewn bwytai. A thra bu'r tywydd yn braf yn y brifddinas (neu yn gymharol sych, o leiaf), bu'n haf i mi o giniawa *al fresco*.





Ymysg fy ffefrynnau? Gwledd o lysiau ar lannau'r Taf yn Nook By the River ym mis Mai, yna brechdan granc o flaen Gali Penarth ym mis Mehefin. Macrell ffres a gwsberan yng ngardd yr Heathcock ym mhentref Llandaf, a chawl cimwch o flaen James Sommerin @ The Shed yn Goodsheds y Barri yn mis Gorffennaf. A beth am fis Awst? Mentrais dan do i ddathlu fy mhen-blwydd, yn Asador 44 a Bar Curado – yna margaritas o flaen *taqueria* La Pantera. Ond mae 'na un man sy' 'di nenu i droeon dros yr wythnosau diwethaf, sef caffi chwaethus Ground, Pontcanna – ac un o'r byrddau 'tu fas' yn benodol.

Becws y cogydd Tom Simmons yw'r cyrchfan hyfryd hwn, a leolwyd fetrau'n unig o'r bwyty gwreiddiol, Thomas - rhwng deli Eidalaidd Al Ponte a The Frame Shop. Bu'r gofod yn wag am dros ugain mlynedd, ond bellach mae'n fwrlwm o seiniau a blasau – gan gynnwys fy ffefryn, y fynsen gardamom Sgandinafaidd. Dwi'n dwlu hefyd ar y pestri Daneg blas mefus, siocled gwyn ac ysgawen ('trît' arbennig ar benwythnosau) a'u dewis gogoneddus o frecwastiau. Ag yntau'n wreiddiol o Gilgwyn, gogledd Sir Benfro, cychwynnodd y cogydd ei yrfa yn lleol, yng ngheginau'r Llew Aur ac yn Llys Meddyg, Trefdraeth. Aeth Tom yn ei flaen i hyfforddi'n ffurfiol yn Ffrainc, cyn agor ei fwyty ei hun ger Pont Tŵr Llundain, cyn sefydlu Thomas by Thomas Simmons, ar y cyd â Lois Thomas, ei bartner. Cyffyrddiad bach hyfryd ar fwydlen Ground felly yw'r eog wedi'i fygu yn sied gefn Llys Meddyg; caiff ei weini ar dost bara rhug becws Ground ac wyau wedi'u sgramblo. Ardderchog!

Ysbrydolodd fy ymweliadau â becws Ground i mi drefnu bwrdd am ginio go-iawn yn Thomas by Tom Simmonds. Ydych chi'n cofio'r diwrnod rhyfedd hwnnw ym mis Rhagfyr, pan gaeodd popeth am chwech yr hwyr ar fyrder? Ro'n i ym mwyty Thomas y diwrnod hwnnw am 'damaid i aros pryd' dros ginio – tarten lysywen a Martini anfarwol. Bu'r bwyty ar gau, fel pobman arall, am chwe mis, a roddodd y cyfle i Tomos a Lois ddatblygu Ground, a darparu gwasanaeth 'pryd ar glyd' go arbennig. Ond bendigedig oedd cael dychwelyd i'r gofod hynod foethus llawn cyffyrddiadau Art Deco.

Suddais yn fodlon i fy sedd melfed gwyrdd ger y ffenest am orig i gofio – a gwledd o 'sgod a sglodion'. Datblygodd y seren o saig enw da o'r agoriad cyntaf yn ystod mis Chwefror y llynedd; lwyn penfras a orchuddiwyd â 'briwsion' cytew euraidd, gyda purée siâp pys gwyrdd perffaith! Ond y sglodion, gyfeillion, y sglodion sy'n enwog; fe wnaeth hyd yn oed Giles Coren - yn ei golofn fwytai i'r *Times* ym mis Gorffennaf - eu canmol i'r entrychion. Neulltuir ddiwrnod bob wythnos (dydd Mawrth fel rheol) i'r cogyddion gerflunio'r campweithiau bychain o bentwr anferthol o datws Lovers. Torrir y tatws yn denau denau, a'u cywasgu i 33 haenen – taenir pob trydydd haenen â menyn parmesan, cyn eu ffrïo mewn olew had rêp. Sôn am sgwariau bach perffaith, fel bwyta *mille feuille* ond sawrus. 10 allan o 10 gen i, heb feddwl ddwywaith. I orffen y pryd, pwdin muscovado y tŷ, fel tarten driog mor ysgafn â phluen. Does dim amheuaeth gen i, mae bwyty Thomas ar y brig – un o oreuon Caerdydd yn fy marn i. Ewch, da chi, am 'brofiad' o fri; wedi cyfnod o'r fath ry' chi'n ei haeddu. O.N. Llongyfarchiadau mawr, gyda llaw, i Tomos a Lois ar enedigaeth Soffia Perry Simmons yn ystod mis Awst!

Becws Ground / Thomas by Tom Simmons, Stryd Pontcanna CF11 9HQ; 02921 167850/00

*Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke, £9.99 (Gwasg Gomer)

## Llwyddiant annisgwyl i Forgannwg

Ar ddechrau tymor 2021, roedd cefnogwyr Clwb Criced Morgannwg yn edrych ymlaen at dymor llwyddiannus a gallu dychwelyd i wylio'r sir.

Gwireddwyd llwyddiant a fe wnaf ddychwelyd at hynny yn y man. Bu'n rhaid aros tan ddechrau Mehefin cyn gallu dychwelyd i Erddi Soffia. Nifer cyfyngedig oedd yn gallu mynychu'r gêm Bencampwriaeth yn erbyn Swydd Caerhirfryn a hynny ar y diwrnod cyntaf yn unig ac yr oedd yn rhaid i gefnogwyr gymryd nifer o brofion cyn gallu mynychu.

Cymysg fu'r perfformiadau yn ystod hanner cyntaf y tymor. Cafwyd perfformiadau calonogol yn ystod y Bencampwriaeth pedwar niwrnod gan gynnwys buddugoliaethau gwych yn erbyn Sir Caerhirfryn a Swydd Caint. Yr oedd yn braf iawn croesawu un o fatwyr gorau'r byd sef Marnus Labuschagne yn ôl i Forgannwg tra yr oedd Michael Neser, hefyd o Awstralia, wedi creu argraff yn ystod ei dymor cyntaf.

Yn anffodus, siomedig iawn fu'r perfformiadau yn ystod y gystadleuaeth 20 pelawd gyda Morgannwg yn gorffen ar waelod tabl y De gan ennill dim ond tair gêm. Yr unig nodyn calonogol oedd fod mwy o gefnogwyr yn gallu mynychu yn ystod Mehefin a Gorffennaf.

Ddiwedd Gorffennaf gwelwyd cystadleuaeth griced newydd yn dechrau, sef y can pelen/yr *Hundred.* Lleolwyd un o'r timau sef y Tân Cymreig yng Ngherddi Soffia. Er mai siomedig fu perfformiadau'r tim, rhaid canmol yr ymdrechion i hybu'r Gymraeg ar grysau ac yn ystod y gemau. Cymysg fu'r ymateb i'r gystadleuaeth gyda nifer yn poeni am yr oblygiadau i'r timau sirol presennol gan gynnwys Morgannwg. Yn wir yr oedd Morgannwg heb bum chwaraewr ar gyfer y gystadleuaeth 50 pelawd a oedd yn cyd-fynd gyda'r *Hundred.*

Ond yr oedd cyfle i chwaraewyr ifainc ddisgleirio. Dyna'n union ddigwyddodd i Forgannwg. Cafwyd llwyddiant rhyfeddol gan ddod ar frig y grŵp gan ennill pedair gêm a churo Essex yn y rownd gyn-derfynol ar Erddi Soffia. Yna curo Swydd Durham yn y rownd derfynol yn Nottingham – tlws cynta'r sir ers 2004. Yn y rownd derfynol, yr oedd yn braf gweld Cymry yn disgleirio sef Andrew Salter, Lukas Carey a'r capten ifanc o'r Eglwys Newydd, Kieran Carlson. Yr unig siom oedd nad oedd modd i lawer o gefnogwyr Morgannwg deithio wrth ystyried mai dim ond tri diwrnod oedd rhwng y rownd cyn-derfynol a'r rownd derfynol. Rhaid rhoi trefn ar strwythur y tymor ond am y tro braf yw mwynhau llwyddiant annisgwyl Morgannwg.

*Hywel Owen*



---

## Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

Roedd bron at flwyddyn a hanner wedi mynd heibio ers i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd baratoi ar gyfer gêm gystadleuol. Ond ar bnawn Sadwrn, Awst 6ed, daeth y disgwyl i ben gyda thaith i Lanilltud Fawr mewn gêm yng nghynghrair B2 Bowlen Undeb Rygbi Cymru. Tymor byr fydd hwn – dim ond 5 tîm sydd yn yr adran – yn dod i ben ar ddiwedd mis Hydref, pan fydd yr Undeb yn ystyried y camau nesaf tuag at ryw fath o normalrwydd.

Ond doedd dim llawer o normalrwydd mewn cychwyn tymor ar ddechrau mis Awst – gofiais i 'rioed y tymor yn dechrau mor gynnar. Ond roedd digon o hyder wrth i ni baratoi, gyda'r tymor newydd wedi denu llu o wynebau newydd i'r sesiynau ymarfer dros yr haf. Roedd tair gêm gyfeillgar lwyddiannus wedi ychwanegu at yr hyder, gan arwain at deimlad positif wrth inni deithio i Lanilltud.

A chyfiawnhawyd yr hyder hwnnw, wrth i'r Clwb ennill yr ornest gyntaf o 23-12, mewn gem gystadleuol a chaled. Doedd hi ddim yn teimlo fel mis Awst, gyda'r gwynt yn chwythu'n gryf o un pen i'r llall, gydag ambell gawod drom o law, ond roedd hi'n braf bod ar ymyl y cae eto. Manteisiodd y Clwb o'r gwynt y tu cefn iddynt yn ystod yr hanner cyntaf, gan sgorio dau gais a chyrraedd yr egwyl 18-6 ar y blaen. Wedi hynny, amddiffyn cryf oedd yn hanfodol inni amddiffyn y fantais, a llwyddwyd i atal Llanilltud rhag croesi'r gwyngalch, cyn i gais hwyr i'r Clwb selio'r fuddugoliaeth. Roedd hi wedi bod yn gêm gorfforol tu hwnt, ond roedd boddhad amlwg haeddiannol wrth i'r bechgyn ddod o'r cae.

Y Sadwrn canlynol, Old Iltydians oedd ein gwrthwynebwyr cyntaf i Bontcanna. Eto, roedd hi'n gêm agos a chystadleuol, ac wrth i ni droi ar yr egwyl, yr Illts oedd ar y blaen. Ond wedi troi, cododd y Clwb ei gêm, gan sgorio ddwywaith wrth ennill o 13-8. Dwy gêm glos, ond y Clwb yn llwyddiannus yn y ddau, ac ysbryd da i'w synhwyro ymysg y chwaraewyr a'r gwylwyr.

Yn anffodus, colli fu'r hanes wrth i'r bechgyn deithio i Dremorfa ar gyfer trydedd gêm y tymor yn erbyn St Albans. Un anfantais o chwarae yn ystod Mis Awst yw'r absenoldebau wrth i chwaraewyr fwynhau eu gwyliau haf. Mae'n siŵr fod hyn yn berthnasol i bob clwb, ond efallai'n bod ni'n teimlo'r effaith yn fwy, gan fod cynifer o'r bechgyn a'u cartrefi y tu hwnt i Gaerdydd. Erbyn inni gymryd i'r cae y pnawn hwnnw, roedd 35 o chwaraewyr gwahanol wedi cael eu dewis yn barod i gynrychioli'r tîm cyntaf, a dim ond 4 ohonynt oedd wedi chwarae ymhob gêm. Ond doedd dim esgusodion – St Albans yn llawn haeddiannol o fuddugoliaeth o 23-5 mewn gêm agored. Braf oedd clywed fod yr ail dîm wedi bod yn llwyddiannus lan yn Nhrelai, bythefnos cyn i'r tymor cystadleuol ddechrau iddyn nhw, ym mhrif adran clybiau Caerdydd.

Ar y cyfan, felly, dechrau boddhaol iawn i'r tymor, a'r gobaith y byddwn yn gallu adeiladu ar hyn wrth i'n chwaraewyr chwarae'n fwy cyson gyda'i gilydd. Mae'r ysbryd ymysg y chwaraewyr cystal ag erioed, a'r Clwb cyfan yn falch o fod yn gallu bod nôl ar y cae. Mae croeso mawr i unrhyw chwaraewyr newydd sydd am ddod lawr i ymarfer – sesiynau o fis Medi ymlaen yn House of Sport, Leckwith, ar Ddydd Mercher am 7yh.